# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH,<br>27 MEHEFIN 2017 am 2.00 o'r gloch y.p. | TUESDAY,<br>27 JUNE, 2017 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes, Alun W Mummery, Alun Roberts, Margaret M. Roberts a Robin Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Eric Jones, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Annest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1** **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**

**2** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd a ganlyn :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 20 Ebrill, 2017.
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 31 Mai, 2017.

**4** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMUNEDAU GYNTAF</u>** (Tudalennau 7 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Tai.

**5** **<u>RHAGLEN LLEOEDD LLEWYRCHUS LLAWN ADDEWID</u>** (Tudalennau 43 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â'r uchod.

**6** **<u>ENWEBU AELODAU SGRIWTINI I WASANAETHU AR BANELAU A BYRDDAU</u>** (Tudalennau 59 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

**7** **<u>RHAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 81 - 82)

Cyflwyno Rhaglen Waith y Pwyllgor.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Ll Jones, Richard Owain Jones a Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr.<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes MBE, Carwyn Jones a Dafydd Rhys Thomas.<br><br>Cynghorydd Ieuan Williams – Arweinydd y Cyngor<br><br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd K.P. Hughes (Aelod Portffolio Addysg) |

---

Gan mai hwn oedd ei gyfarfod olaf fel Aelod Etholedig, roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jim Evans, yn dymuno diolch i'r Aelodau am eu hyder ynddo dros y misoedd diwethaf. Cyfeiriodd at y Cadeirydd blaenorol, Mr. Derlwyn R. Hughes a thalodd deyrnged i'w waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Alun Mummery, am ei gefnogaeth a'i waith fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd hefyd i'r Swyddogion sy'n cefnogi a gweinyddu'r cyfarfod.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2017.

## 4 PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ar fuddion sefydlu Is-Grŵp Cyllid fel is-banel o'r Pwyllgor hwn, gyda dau aelod etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Bwriedir cynnal yr Is-Grŵp ar ffurf cyfarfodydd busnes. Nododd ei bod yn fwriad datblygu model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i graffu ar drafodaethau cyllidol mewn mwy o fanylder yng nghyfarfodydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini. Sgôp ac ystod arfaethedig y Panel fydd craffu ar y pynciau a ganlyn:-

- Monitro Chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf
- Cyllideb y flwyddyn i ddod
- Cynllun Cyllidol Tymor Canol
- Rheoli Dyledion
- Polisi Rhyddhad Treth ar Fusnesau
- Cynllun Busnes y CRT
- Balansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth yn yr adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn -

- Gofynnwyd a fyddai rôl yr Is-Grŵp Cyllid yn dyblygu neu'n ymyrryd â rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu? Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mai rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw monitro risgiau a rheolaeth ariannol y Cyngor a thrwy hynny roi sicrwydd i'r Cyngor;
- Gofynnwyd cwestiynau am yr hyfforddiant fydd yn cael ei roi i Aelodau'r Is-Grŵp Cyllid. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro y disgwylir y bydd Aelodau Etholedig ar yr Is-Grŵp yn cael eu datblygu yn hytrach na darparu sesiwn hyfforddiant ar eu cyfer. Nododd y bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'i dîm yn rhoi arweiniad i Aelodau Etholedig ar brosesau/themâu cyllidebol penodol o fewn y Cyngor. Rhagwelir y bydd Aelodau'n gallu craffu ar a chwestiynu'r broses gyllidebol yn drylwyr yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini wedi hynny.

**PENDERFYNWYD :-**

- **nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer materion cyllidol;**
- **awdurdodi'r Rheolwr Sgriwtini Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i wneud trefniadau i sefydlu Panel Sgriwtini Cyllid.**

## 5 PANEL SGRIWTINI PLANT

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ar fuddion sefydlu Panel Sgriwtini Plant mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan AGGCC yn dilyn yr arolygiad diweddar o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn. Mae'r argymhelliad yn canolbwyntio ar bwysigrwydd parhad cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cynyddu ac yn cael ei gynnal. Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro at y panel traws bleidiol o Aelodau presennol sydd wedi bod yn edrych ar ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a goruchwylio Cynllun Gwella cyntaf y Gwasanaethau Plant. Dywedodd bod yr adroddiad yn ceisio adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn barod gan y panel traws bleidiol, drwy ddwyn y Pwyllgor Gwaith ac Uwch Reolwyr i gyfrif drwy sgriwtini er mwyn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ac AGGCC bod y broses wella yn un cadarn ac yn gynaliadwy.

Adroddodd y Swyddog ar sgôp arfaethedig y Panel a'i nod ac amcanion, sy'n cael eu crynhoir ym mharagraff 5 yr adroddiad. Wrth ystyried aelodaeth y Panel, cyfeiriwyd yn benodol at bwysigrwydd ceisio sicrhau, fel egwyddor allweddol, bod elfen o barhad o ran aelodaeth.

Croesawodd yr Aelodau y syniad o sefydlu Panel Sgriwtini Plant a nodwyd y dylid ystyried cynnwys Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf fel aelod o'r Panel.

**PENDERFYNWYD :-**

- **nodi'r cynnydd wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer y Gwasanaethau Plant;**
- **derbyn sgôp ac ystod gwaith y Panel Plant newydd, gyda sicrhau elfen o barhad yn yr aelodaeth yn egwyddor allweddol wrth ystyried aelodaeth y Panel;**
- **nodi mai'r cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r Panel Plant yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol, gan y Rheolwr Sgriwtini, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes).**

## 6 PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Swyddog Sgriwtini bod y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi ei sefydlu ym mis Tachwedd 2012 a'i bod erbyn hyn yn briodol i ddiweddaru Cylch Gorchwyl y Panel i'w gyflwyno i aelodau newydd y Panel yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mai.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 7 CRAFFU AR BARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Cyflwynodd y Swyddog Sgriwtini adroddiad cefndir manwl mewn perthynas â phartneriaethau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd â sefydliadau eraill. Nododd bod Uned Archwilio Fewnol y Cyngor wedi cwblhau adroddiad ar drefniadau llywodraethu gwaith partneriaeth ym mis Rhagfyr 2015 a fu'n sbardun i symud ymlaen gyda rhai meysydd datblygu allweddol. Argymhellwyd bod angen creu dogfen bolisi ar gyfer partneriaethau ac ar 14 Mawrth 2015 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ddogfen Polisi Partneriaethau Corfforaethol fel sylfaen ar gyfer gwaith partneriaeth a hefyd fel fframwaith i arwain trefniadau monitro partneriaethau.

Nododd bod gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio rôl bwysig o ran sicrhau lefel briodol o ymgysylltu gyda sefydliadau eraill sy'n creu unrhyw bartneriaeth. Wrth gyflawni'r rôl mae nifer o feysydd posib y dylid eu hystyried, yn cynnwys y materion canlynol:

- Craffu ar drefniadau llywodraethu;
- Craffu ar gyfraniad y Cyngor;
- Arfarnu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yn ei gyfanrwydd
- Sicrhau ymgysylltiad cyhoeddus a phartneriaethau a strategaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Mae'n briodol bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol ond hefyd yn monitro unrhyw bartneriaethau gwasanaeth gweithredol allweddol, fel y cynigiwyd gan naill ai yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth neu'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel rhan o drefniadau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ei bod yn bwysig fod Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor perthnasol ynglŷn â gwaith y sefydliadau hyn. Nododd bod angen ffurfioli proses yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.

**PENDERFYNWYD nodi'r gwaith a wnaethpwyd gan y Pwyllgor o ran craffu ar effeithiolrwydd partneriaethau dros y 12 mis diweddaf a chytuno i adeiladu ar y trefniadau craffu presennol yn ystod blwyddyn newydd y Cyngor.**

## 8 RHAGLEN WAITH 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini ar y Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer 2017/18.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer 2017/18.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 pm

**Y CYNGHORYDD JIM EVANS**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Vaughan Hughes, R Ll Jones<br>G O Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Alun Roberts,<br>Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Richard O. Jones – Cadeirydd y Cyngor Sir |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gwilym O. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Robert Ll. Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**CYNGHORYDD RICHARD O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **DYDDIAD:** | 27 Mehefin 2017 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Cyflawniadau Cymunedau yn Gyntaf Môn yn 2016/17 a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol wedi i Gyllid Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben |
| **AWDURON:** | Rita Lyon - Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Môn<br>Jenny Whiston - Rheolwr Grantiau |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | Shan Lloyd Williams |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | Y Cyng. Llinos Medi Huws |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr hyn a gyflawnwyd gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Ynys Môn a datblygiadau wedi i gyllid Cymunedau'n Gyntaf ddod i ben. |

**1. Cefndir**

Cyflwynwyd Cymunedau yn Gyntaf [CG] yng Nghymru yn 2001 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru [LlCC] fel eu rhaglen flaenllaw i wella amodau byw a'r rhagolygon ar gyfer pobl a oedd yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ar hyd a lled Cymru. Cafodd y Rhaglen ei had-drefnu yn 2012 gan Lywodraeth Cymru, a daeth yr Awdurdod yn Gorff Cyflawni Arweiniol ar gyfer Clwstwr Ynys Môn a Chymunedau yn Gyntaf Môn Cyf yn gyfrifol am y gwaith cyflawni.

Ar 11 Hydref 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant ei fod yn 'bwriadu dwyn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol' ond na fyddai'n gwneud penderfyniad terfynol cyn cynnal ymgynghoriad.

Ar 14 Chwefror 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant y byddai'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei diddymu'n raddol erbyn mis Mawrth 2018. Gwnaed y penderfyniad yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â staff Cymunedau yn Gyntaf, aelodau o'r gymuned a phartneriaid cefnogol a chydran ddeiliaid ar draws Cymru. Roedd hyn yn cynnwys dros 2,300 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, grwpiau ffocws a hwyluswyd a gohebiaeth.

## 2. Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf 2012 - 2017

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn rhedeg ers 1 Chwefror 2013 gyda'r Awdurdod yn gweithredu fel y Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer Clwstwr Ynys Môn ac yn canolbwyntio ei weithgareddau ar y 10% o’r cymunedau mwyaf difreintiedig ar yr ynys. Mae'r ardal a gwmpesir yn cynnwys saith o ardaloedd cynnyrch ehangach is [ACEI] Morawelon, Porthyfelin 1, Tref Caergybi, Maeshyfryd, Ffordd Llundain a Kingsland yng Nghaergybi yn ogystal â Tudur yn Llangefni. Mae pedair o’r ardaloedd ACEI hyn yn y 10% o’r wardiau mwyaf difreintiedig yn un neu ragor o barthau blaenoriaeth Cymunedau yn Gyntaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru [MALlC] ac mae’r cyfan o’r ACEI o fewn y 20% o’r wardiau mwyaf difreintiedig yn gyffredinol.

Mae Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf, sy’n gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig, wedi cyflawni’r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ran yr Awdurdod. Caiff Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf ei reoli gan Fwrdd Cyfarwyddwyr gwirfoddol ac mae’r Deilydd Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Tai a’r Rheolwr Grantiau yn y Gwasanaeth Cyllid hefyd yn sylwedyddion ar y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cael ei gryfhau ers ei sefydlu gyntaf ac erbyn hyn mae arno 11 o Gyfarwyddwyr o wahanol gefndiroedd. Y Pennaeth Gwasanaethau Tai yw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer yr Awdurdod.

Roedd gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf dair thema allweddol:

- Cymunedau llewyrchus
- Cymunedau dysgu
- Cymunedau iach

Roedd prif ffocws y ddarpariaeth ar Ynys Môn yn ymwneud â’r themâu Llewyrchus a Dysgu gydag amrywiaeth o weithgareddau yn canolbwyntio ar wella sgiliau a symud y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur yn ôl i waith.

## 3. Cyflawniadau Cymunedau yn Gyntaf 2016-2017

Sicrhawyd cyllid o £ 662,200 ar gyfer gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf yn 2016/17. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio'n llawn i ddarparu'r gweithgareddau isod:

- **Cymorth Cyflogaeth Craidd**
  Mae’r gwasanaeth Cymorth Cyflogaeth Craidd yn darparu cyngor ac arweiniad i geisio cael pobl yn ôl i fyd gwaith neu i wella eu sefyllfa o ran cyflogaeth ac yn ceisio cynnwys y bobl hynny nad ydynt yn gymwys i gael cymorth drwy raglenni eraill megis pobl sy’n ddi-waith am y tymor byr. Mae rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill yn canolbwyntio ar y bobl hynny sydd yn ddi-waith yn y tymor hir. Rhoddir cefnogaeth barhaus i’r cyflogwr a'r gweithiwr unwaith y bydd swydd wedi ei sicrhau er mwyn cynnal y gyflogaeth. Cafodd 201 o bobl eu cefnogi i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith a chafodd 60 o bobl eu helpu yn ôl i gyflogaeth yn ystod y flwyddyn. O blith y 44 a gefnogwyd yn ôl i gyflogaeth yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn, roedd yn 70% i dal i fod mewn cyflogaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Cymorth i Fentrau Cymdeithasol**
  Darperir cymorth i fentrau cymdeithasol er mwyn helpu rhai newydd i ymsefydlu a rhai sydd eisoes yn bodoli i fod yn fwy cynaliadwy. Cymerodd 10 o bobl ran yn y rhaglen hon er na chafodd unrhyw fentrau cymdeithasol newydd eu sefydlu yn ystod y flwyddyn.

- **Cymorth i Fentrau**
  Darperir cyngor ac arweiniad i entrepreneuriaid sy'n dymuno dechrau eu busnesau eu hunain ac, yn ogystal, rhoddir cefnogaeth i fusnesau sydd eisoes yn masnachu. Daeth 8 o bobl yn hunangyflogedig yn ystod y flwyddyn.

  Yn dilyn bid lwyddiannus i'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid drwy'r Uned Datblygu Economaidd, llwyddodd CG Môn i sicrhau £30K ar gyfer cynllun grantiau bach sy'n cefnogi dros 30 o fusnesau yng nghanol y trefi. Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i 8 busnes i wneud cais am arian o Gronfa Fuddsoddi Caergybi.

- **Cynhwysiant ariannol**
  Mae Cynhwysiant Ariannol yn parhau i fod yn faes gwaith pwysig a bydd yn bwysicach fyth wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n ehangach. Rhoddir cefnogaeth i unigolion i'w helpu i wella eu sgiliau ariannol a trin pres, darperir cyfrifiadau i sicrhau eu bod yn well allan a defnyddir gwefannau cymharu er mwyn helpu pobl i wneud arbedion. Cefnogwyd 79 o bobl i gael at y budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl i'w derbyn.

  Mae'r Undeb Credyd wedi bod yn gweithio yn Swyddfeydd CG Môn am 1 diwrnod yr wythnos. Mae 37 o bobl wedi agor cyfrif Undeb Credyd newydd a rhoddwyd 50 o fenthyciadau.

  Sicrhawyd cyllid ychwanegol drwy danwariant Dechrau'n Deg i gyflogi gwasanaethau Ymgynghorydd Dyledion cymwys a ddarparwyd drwy CAB ac a oedd yn gweithio amser llawn yn swyddfeydd Cymunedau yn Gyntaf Môn rhwng mis Tachwedd a diwedd mis Mawrth, gan sicrhau bod cleientiaid yn cael cyngor prydlon. Roedd galw mawr am y gwasanaeth hwn a rhoddwyd cefnogaeth i 150 o gleientiaid gyda 521 o faterion unigol. Roedd gan 130 o gleientiaid unigol faterion a oedd yn ymwneud â budd-dal lles a chapasiti ariannol neu ddyled.

  Rhoes y gwasanaeth hefyd gymorth i bobl i hawlio'r budd-daliadau yr oeddynt yn gymwys i'w derbyn gan gynnwys Budd-dal Tai a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Sicrhawyd gwerth £ 53,137 o fudd-daliadau ychwanegol i bobl.

  Yn anffodus, mae galw mawr o hyd am y Banc Bwyd 'Pantri Pobl' ac fe ddosbarthwyd 4,068 o brydau bwyd yn ystod 2016/17.

- **Cynhwysiant digidol**

  Cafodd 113 o bobl gymorth mewn sesiynau cynhwysiant digidol a oedd yn darparu sgiliau TG sylfaenol gan gynnwys sut i fynd ar-lein a defnyddio'r rhyngrwyd. Dywedodd 95 o bobl eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur yn dilyn y sesiynau.

- **Darpariaeth ar gyfer Pobl Ifanc**

  Cymerodd 104 o bobl ifanc ran weithredol yn y Rhaglen Ieuenctid. Mae ffocws y gweithgareddau sy'n ymwneud ag ieuenctid yn seiliedig yn awr ar 'Y Pod' sy'n adeilad pwrpasol ar gyfer pobl ifanc yng Nghanol Tref Caergybi lle gallant fynd ar ôl ysgol a gyda'r nos. Cafodd Y Pod ei ddylunio a'i adeiladu gan y bobl ifanc gyda chymorth staff a gwirfoddolwyr o'r Academi Alwedigaethol. Mae ynddo gaffi sy'n cael ei redeg gan y bobl ifanc, darpariaeth TG, ystafell gemau / sinema, bwrdd pŵl, deciau DJ a theledu ac ardal ymlacio. Er mai'r bobl ifanc sy'n ei redeg, mae hefyd yn cael ei staffio gan 3 Gweithiwr Ieuenctid cymwys sy'n cefnogi'r bobl ifanc. Cafodd Y Pod ei ariannu drwy'r Loteri Iechyd.

- **Darpariaeth Sgiliau Sylfaenol**

  Yn anffodus, sgiliau sylfaenol gwael sydd gan gyfran uchel o'r cleientiaid sy'n cael gwasanaeth gan Cymunedau yn Gyntaf. Cefnogwyd 102 o unigolion i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn ystod y flwyddyn gyda 31 yn llwyddo i ennill cymhwyster.

- **Academi Alwedigaethol Gymunedol**

  Mae'r Academi Alwedigaethol Gymunedol sy'n Ganolfan Hyfforddiant Achrededig ar gyfer Agored Cymru, LANTRA a Qualsafe, yn cynnig gwasanaeth mentora un i un dwys gyda chleientiaid i'w paratoi ar gyfer cael swydd yn ogystal â darparu amrywiaeth o gymwysterau gwaith achrededig trosglwyddadwy. Mae'r mentoriaid yn yr Academi yn darparu cyswllt hanfodol gyda'r Timau Cyflogaeth yn CG Môn wrth helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a datblygu hyder.

  Yn ddiweddar, mae'r Academi wedi derbyn statws achrededig fel Canolfan Brawf CSCS sy'n darparu'r cymhwyster i bobl weithio ar safleoedd adeiladu. Bydd y datblygiad hwn yn darparu llif incwm i CG Môn Cyf yn y dyfodol a fydd o gymorth i sicrhau ei gynaliadwyedd parhaus.

  Sicrhawyd cyllid hefyd yn ystod y flwyddyn i brynu car hyfforddiant gyrru gyda rheolaeth ddeuol a gwasanaeth Hyfforddwr Gyrru cymwys sy'n gallu darparu gwersi gyrru yn rhad ac am ddim i gleientiaid os yw eu hanallu i yrru yn eu rhwystro rhag gweithio.

  Mae'r Academi wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Dysgu Gydol Oes i ddarparu cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen TRAC ac yn ddiweddar, daeth yn ddarparwr ar Fframwaith OPUS.

  Mae rhestr o dargedau yn erbyn canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn cael ei ddangos yn Atodiad 1.

## 4. Rhaglenni Cyllido Eraill a Ddarparwyd gan CG Môn

- **ESGYN ('LIFT')**

  Yn 2014/15, cafodd Ynys Môn ei dewis gan Lywodraeth Cymru i dreialu eu Rhaglen 'LIFT' fel rhan o'r Strategaeth Trechu Tlodi. Roedd y cynllun peilot yn targedu aelwydydd heb waith gyda golwg ar gael pobl yn ôl i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli. Daeth Ynys Môn yn un o naw o ardaloedd peilot ar draws Cymru ac ar hyn o bryd, mae'n parhau i ddarparu'r rhaglen ESGYN a fydd yn rhedeg yn ei ffurf bresennol tan fis Mawrth 2018.

  Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017, roedd ESGYN Ynys Môn wedi cefnogi 356 o bobl ac wedi symud 117 o'r rheiny yn ôl i waith. Mae'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru fel un o'r 3 sy'n perfformio orau ar draws Cymru. Gweler Atodiad 2.

- **Cymunedau am Waith**

  Mae 'Cymunedau am Waith' (C4W) a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, drwy Lywodraeth Cymru, yn fenter ar y cyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n targedu pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) a phobl 25 oed a hŷn sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn y tymor hir ac yn byw yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gyda golwg ar eu cael yn ôl i waith. Dechreuodd y cynllun ar Ynys Môn ym mis Chwefror 2016 ac mae cyllid wedi'i ymestyn yn ddiweddar i weithredu'r cynllun tan fis Rhagfyr 2020. Gyda'i gilydd mae Tîm C4W Môn (CG Môn ac AGP) wedi ymgysylltu ag 99 o gleientiaid ac wedi cefnogi 27 yn ôl i waith.

- **Cynhwysiant Gweithredol**

  Er mai Cyngor Sir Ynys Môn yw'r Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer cyllid ESGYN a Chymunedau am Waith, mae CG Môn hefyd wedi cyflwyno bidiau uniongyrchol i ddarparu gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar draws yr Ynys.

  Mae Cynhwysiant Gweithredol hefyd yn cael ei ariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ond nid oes iddo'r un cyfyngiadau daearyddol â'r cyllid arall ac mae wedi bod yn fodd i CG Môn Cyf ehangu'r gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar draws Ynys Môn. Mae Cynhwysiant Gweithredol wedi bod ar gael ers mis Ebrill 2017, a bu galw sylweddol am gefnogaeth o ardal Amlwch.

- **Loteri Iechyd**

  Mae Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl yn elusen sy'n cael ei hariannu drwy arian a godwyd o gardiau crafu'r Loteri Iechyd. Mae Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl (YIB) yn dosbarthu arian mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys grantiau i achosion da cymwys ledled y DU a gweithredu rhaglen ariannu fawr o'r enw Sgyrsiau Lleol (SLl). Nod SLl yw gwella llesiant mewn cymunedau dynodedig. Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n cefnogi pedair ardal SLl allweddol ac mae Caergybi'n un ohonynt. Cafodd CG Môn Cyf ei ddewis gan YIB fel ei bartner dynodedig ar gyfer cyflwyno'r rhaglen SLl yn y dref.

  Mae SLl yn cael ei yrru gan y gymuned ac mae staff a gyflogir drwy'r prosiect SLl yno i gefnogi aelodau'r gymuned sydd eisiau cymorth a chefnogaeth i fynd i'r afael â materion

neu brosiectau yn y dref. Y 3 mater allweddol a ddaeth i'r wyneb yn ystod proses ymgynghori eang oedd:

• Rhywbeth ar gyfer pobl ifanc
• Swyddi a hyfforddiant
• Mwy o ddigwyddiadau cymunedol

Y datblygiad allweddol cyntaf a gyflawnwyd oedd y Pod Ieuenctid yn Stryd y Farchnad. Y digwyddiad cymunedol mawr cyntaf a gefnogwyd gan gyllid YIB oedd y rinc sglefrio a'r Ffair Nadolig a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2016 yn hen siop Woolworth yn Stryd y Farchnad Caergybi a ddenodd dros 3000 o bobl dros gyfnod o 6 diwrnod. Yn ogystal, mae Cist Gymunedol wedi cael ei sefydlu i gefnogi grwpiau cymunedol gyda grantiau hyd at £1,000 a fydd yn cael eu cynnig yn flynyddol.

Mae'r arian gan YIB tuag at brosiectau SLI yn cael ei ystyried fel ymrwymiad tymor hir oherwydd mae YIB yn teimlo y bydd yn cymryd cryn dipyn o gefnogaeth a phrynu i mewn cymunedol i wneud cyfraniad cadarnhaol at wella lles y gymuned.

**5. Diddymiad graddol Cymunedau yn Gyntaf yn 2017-2018**

Mae cyllid ar 70% o'r lefelau presennol (£463,540) wedi cael ei ddyfarnu i'r Awdurdod Lleol i gefnogi gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf hyd at fis Mawrth 2018. Wedi hynny, bydd arian Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben.

Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd o fewn Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf er mwyn darparu ar gyfer y toriad o 30% gan gadw cymaint o'r gwasanaethau ag sy'n bosibl. Mae lefelau staffio a ariennir drwy arian craidd wedi cael eu gostwng o 16 i 10 ac mae 2 aelod o staff wedi cael eu diswyddo. Mae'r 4 aelod o staff sy'n weddill wedi cael eu symud i ffrydiau ariannu eraill.

Daw'r rhaglen ESGYN hefyd i ben ym mis Mawrth 2018 a bydd yn cael ei disodli gan Grant Cyflogadwyedd sydd, o'r canllawiau cychwynnol, yn edrych fel cynllun tebyg iawn i ESGYN.

Mae CG Môn Cyf fel brand cwmni wedi hen sefydlu ac mae pawb yn ei adnabod, fodd bynnag, gyda diddymu Cymunedau yn Gyntaf fel brand Llywodraeth Cymru, ni fyddai CG Môn Cyf bellach yn gallu cadw Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf fel eu henw busnes. Er mwyn cadw'r brand sefydledig, mae Môn CG Cyf wedi newid eu henw masnachu i Cymunedau Ymlaen Môn Cyf.

**6. Y dyfodol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cronfa Etifeddiaeth o £6m y flwyddyn o fis Ebrill 2018 fel y gall rhai o brosiectau mwyaf effeithiol Cymunedau yn Gyntaf barhau. Bydd hyn yn gweithredu am gyfnod o 4 blynedd. Bydd y modd y caiff y cyllid ei ddefnyddio yn amrywio o ardal i ardal, ond yn Ynys Môn, bydd y ffocws yn parhau ar symud pobl yn ôl i fyd gwaith. Mae £125,015 wedi cael ei ddyrannu i Ynys Môn ar gyfer 2018-19 a 2019-20. Wedi hynny, bydd y Gronfa Etifeddiaeth yn cael ei chynnwys yn y Grant Setliad Rhanbarthol.

Ni fydd y cyllid yn cael ei dargedu mwyach i glystyrau daearyddol, yn hytrach bydd yn cael ei ddefnyddio lle bynnag y mae angen gan ganiatáu i gymunedau eraill ar Ynys Môn elwa ar y Gwasanaethau Cymorth Cyflogaeth a gynigir gan CG Môn Cyf.

Hefyd, bydd Grant Cyflogadwyedd gwerth £12m y flwyddyn yn cael ei lansio i gefnogi'r rhai sydd bellaf oddi wrth farchnad lafur. Bydd yn cael ei gynllunio i adeiladu ar lwyddiant y rhaglenni Cymunedau am Waith, ESGYN a PaCE a bydd yn bwydo i mewn i Gynllun Cyflogadwyedd ehangach Llywodraeth Cymru dan arweiniad y Gweinidog dros Sgiliau. Nid yw gwerth y Grant Cyflogadwyedd ar gyfer Ynys Môn wedi cael ei benderfynu eto a bydd yn destun bid a fydd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y Grant Cyflogadwyedd yn weithredol o Ebrill 2018 i Fawrth 2020.

Mae Cymunedau am Waith, cynllun a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac sydd ar gael mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru yn cefnogi pobl yn ôl i waith wedi cael ei ymestyn a bydd yn parhau i gael ei ariannu tan fis Rhagfyr 2020.

Mae rhagor o geisiadau Cynhwysiant Gweithredol wedi cael eu cyflwyno i gynnal gweithgareddau tan fis Rhagfyr 2019.

Yn ogystal â'r uchod, bydd CG Môn Cyf yn chwilio am ffynonellau cyllido eraill i gynnal eu gweithgareddau.

Mae Môn Cymunedau yn Gyntaf wedi cael llwyddiant dros nifer o flynyddoedd wrth sicrhau ffynonellau ychwanegol o gyllid allanol gyda throsiant yn 15/16 o £1.119m fel y dangosir yn eu Datganiadau Ariannol yn Atodiad 3. Byddent yn ceisio chwilio am ffynonellau eraill o gyllid a chreu incwm i gynnal ei gweithrediadau.

**7. Rôl y Cyngor fel Bwrdd Cyflawni Arweiniol (BCA)**

Mae gan y Cyngor fel y BCA berthynas agos â'r rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf sy'n cael eu rhedeg gan CG Môn Cyf ac mae'n cael ei gynrychioli yng ngrŵp BCA Gogledd Cymru sy'n cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Fel BCA, rhaid cyflwyno cynllun manwl ar gyfer y flwyddyn drosiannol i Lywodraeth Cymru a fydd yn cael ei archwilio gan swyddogion ac fe gyflwynwyd hwnnw erbyn 31 Mai, 2017. Bydd y Rhaglen Grant Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei chau i lawr erbyn diwedd 2017-2018, gan ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer cau rhaglenni, a bydd yn cynnwys materion megis gwersi a ddysgwyd a buddion a wireddwyd.

Bydd angen i'r Cyngor hefyd nodi modelau amgen ar gyfer cynnal y strwythur yn achos cynlluniau a ariennir drwy grant petai CG Môn yn methu parhau ar ei ffurf bresennol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw arian a geir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei beryglu.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Cyngor yn darparu cefnogaeth ymarferol drwy gyfrwng Swyddog Grantiau yn yr Adran Gyllid ac mae'r Gwasanaethau Tai hefyd yn cyfrannu tuag at ariannu'n rhannol (50%) y Swyddog Cynhwysiant Ariannol a fydd, fel rhan o'i gylch gwaith, yn targedu Tenantiaid y Cyngor yn ystod 2017-18.

Os bydd Cymunedau Môn Ymlaen yn gallu denu cyllid allanol o ffynonellau eraill ac yn profi ei fod yn gynaliadwy yn y dyfodol, bydd y sefydliad mewn sefyllfa dda i barhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i gyflwyno'r Grantiau Cyflogadwyedd, ac i gydweithio gyda darparwyr eraill a mynd i'r afael â rhaglenni tlodi a thargedu adnoddau a chefnogaeth at y teuluoedd sydd fwyaf mewn angen ar yr Ynys. Bydd y Bartneriaeth yn amodol ar y Pecyn Cymorth Partneriaeth newydd a gafodd ei gymeradwyo ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Sgriwtini hwn yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mae’n bosibl y bydd peth o’r arian etifeddiaeth yn mynd tuag at gostau'r Academi Alwedigaethol a byddir yn ystyried hyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, fel rhan o drafodaethau sy’n mynd rhagddynt.

Bydd angen i gynlluniau yn y dyfodol adlewyrchu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a pharhau i gefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

**8. Argymhellion**

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaethau i:

Nodi cynnwys yr Adroddiad.

Awduron yr Adroddiad: Rita Lyon, Rheolwr Clwstwr

Jenny Whiston, Rheolwr Grantiau

Dyddiad yr Adroddiad: 26/05/2017

**Atodiad 1.**

| Blaenoriaeth | Mesurau Perfformiad | Targed | Wedi cyflawni |
|---|---|---|---|
| Helpu pobl sy'n 25 oed ac yn hŷn i ddatblygu sgiliau a dod o hyd i waith | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 75 | 100 |
| | Wedi ennill cymhwyster | 26 | 22 |
| | Ar brofiad gwaith neu'n paratoi ar gyfer gwaith | 20 | 12 |
| | Cychwyn mewn gwaith | 30 | 31 |
| | Nifer y rhai y gwyddys eu bod yn parhau i fod mewn gwaith ar ôl 6 mis | 5 | 15 |
| Gostwng diweithdra a diffyg ymgysylltiad ymysg pobl ifanc rhwng 16-24 oed | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 75 | 101 |
| | Wedi ennill cymhwyster | 8 | 13 |
| | Ar brofiad gwaith neu'n paratoi ar gyfer gwaith | 8 | 4 |
| | Diogelu cyfle gyda Twf Swyddi Cymru | 4 | 7 |
| | Cychwyn mewn gwaith | 35 | 29 |
| | Nifer y rhai y gwyddys eu bod yn parhau i fod mewn gwaith ar ôl 6 mis | 8 | 16 |
| Hyrwyddo cynhwysiant digidol | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 100 | 113 |
| | Ennill sgiliau TG sylfaenol | 85 | 91 |
| Cynhwysiant Ariannol – gwella gallu i drin arian, rheoli dyledion a chodi incwm | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 600 | 436 |
| | Lleihau a rheoli dyledion | 50 | 31 |
| | Cael cefnogaeth i gael at y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn | 40 | 79 |
| | Agor cyfrif gydag Undeb Credyd | 40 | 37 |
| Cefnogi mentrau cymdeithasol | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 10 | 10 |
| | Nifer y mentrau cymdeithasol newydd a sefydlwyd | 2 | 0 |
| Cefnogi'r hunangyflogedig | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 40 | 78 |
| | Cychwyn hunangyflogaeth | 8 | 8 |
| Lleihau'r risg o droseddu ymhlith pobl ifanc | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 300 | 104 |
| | Y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol yn rheolaidd | 100 | 89 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nifer y rhai sydd wedi rhoi'r gorau i droseddu | 40 | 34 |
| Cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 12 | 14 |
| | Y nifer sy'n ymddwyn yn well yn yr ysgol | 4 | 4 |
| | Y nifer sy'n perfformio'n well yn academaidd | 4 | 3 |
| Dysgu Gydol Oes yn y cymunedau | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 120 | 194 |
| | Y nifer sy'n cael cymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth | 80 | 165 |
| Gwella sgiliau sylfaenol ymhlith oedolion | Nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun | 50 | 102 |
| | Nifer y rhai sy'n gwella eu sgiliau llythrennedd | 30 | 33 |
| | Nifer y rhai sy'n gwella eu sgiliau rhifedd | 30 | 61 |
| | Nifer y rhai sy'n ennill cymhwyster | 30 | 31 |

**Atodiad 2.**

| CANLYNIADAU RHAGLEN ESGYN AR 31 MAWRTH 2017 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM Y CYFLEOEDD A DDARPARWYD:** | **4419** | **CYFANSWM Y NIFER Y LLWYDDWYD I'W CAEL I MEWN I WAITH** | | | | | | | **904** |
| | | | | | | | | | |
| **CANLYNIAD** | **Ynys Môn** | **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Caerdydd** | **Sir Gaerfyrddin** | **Sir y Fflint** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Rhondda Cynon Taf** | **Abertawe** |
| **Hyfforddiant Sgiliau Sylfaenol** Hyfforddiant Sgiliau Hanfodol (yn aml yn yr ystafell ddosbarth) | 53 | 18 | 21 | 48 | 20 | 19 | 29 | 20 | 74 |
| **Hyfforddiant Galwedigaethol** Gorau oll, bydd y cyflogwyr yn ymgysylltu ac yn cynorthwyo i ddatblygu cynnwys y cwrs a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant mewn cwmni sy'n alinio â chyfleoedd swyddi penodol ac sydd â lefel uchel o gyswllt gyda chyflogwyr | 183 | 283 | 258 | 257 | 198 | 267 | 138 | 158 | 319 |
| **Lleoliadau Gwaith** neu brofiad gwaith sydd yn para o leiaf 2 wythnos | 95 | 123 | 34 | 107 | 58 | 35 | 31 | 37 | 64 |
| **Paratoi ar gyfer cyflogaeth amser llawn** (e.e. drwy roi cyfle i bobl gael blas ar waith neu gael cyfnod arbrofol mewn gwaith, gwaith a ganiateir neu waith gwirfoddol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau cyflogaeth). Dylai'r cyfnod paratoi bara o leiaf 2 wythnos | 131 | 51 | 64 | 65 | 58 | 69 | 37 | 19 | 74 |
| Rhaid i gyfleon **'I Waith'** fod o leiaf 16 awr yr wythnos | 117 | 156 | 72 | 155 | 90 | 67 | 71 | 70 | 106 |
| **CYFANSWM Y CYFLEOEDD A DDARPARWYD:** | **579** | **631** | **449** | **632** | **424** | **457** | **306** | **304** | **637** |
| **Llwyth Achosion** Nifer y cyfranogwyr sydd wedi ymgysylltu â Broceriaid Esgyn | 356 | 639 | 401 | 486 | 324 | 234 | 283 | 205 | 323 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ac sydd, neu sydd heb efallai fanteisio ar y cyfle hyd yn hyn | | | | | | | | | |
| **Cyfweliadau**<br>Cyfranogwyr a fynychodd gyfweliadau ar gyfer gwaith | 201 | 226 | 145 | 242 | 132 | 112 | 115 | 138 | 169 |

**Atodiad 3.**

AUDITOR'S COPY

REGISTERED COMPANY NUMBER: 08085673 (England and Wales)
REGISTERED CHARITY NUMBER: 1148502

# REPORT OF THE TRUSTEES AND CONSOLIDATED FINANCIAL STATEMENTS FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2016 FOR CYMUNEDAU'N GYNTAF MON COMMUNITIES FIRST

## CONTENTS OF THE CONSOLIDATED FINANCIAL STATEMENTS
## FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2016


| | Page |
|---|---|
| Report of the Trustees | 1 to 7 |
| Report of the Independent Auditors | 8 to 9 |
| Consolidated Statement of Financial Activities | 10 |
| Balance Sheets | 11 |
| Notes to the Consolidated Financial Statements | 12 to 20 |

The trustees who are also directors of the charity for the purposes of the Companies Act 2006, present their report with the financial statements of the charity for the year ended 31 March 2016. The trustees have adopted the provisions of Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice applicable to charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard for Smaller Entities (the FRSSE) (effective 1 January 2015).

**OBJECTIVES AND ACTIVITIES**
**Objectives and aims**
**Mission statement**

By Listening and working with our community within the Mon Communities First area, we aim to regenerate the environment for existing and future generations.

The company's aims and objectives are set out in the Memorandum and Articles as follows:

To support the most disadvantaged people in the most deprived areas of the Isle of Anglesey with the aim of contributing to alleviating persistent poverty, focussed on community supported actions, working alongside other programmes to narrow the education, skills, economic and health gaps between the most deprived and more affluent areas.

**Significant activities**
Working within the Communities First "Vision Framework", a number of key themes and projects have been carried out during the year.

**Public benefit**
Our main activities and whom we try to help are described below. All our charitable activities focus on helping local people of all ages to become more involved in their local community by taking part in community work projects such as environment, support social events, build community spirit and help improve their own lives and the lives of others in the community.

The trustees have paid due regard to the Charity Commission's guidance on public benefit in deciding the activities undertaken during the year. The trustees are satisfied that the information provided in the report and accounts meets the public benefit reporting requirements.

**Volunteers**
The trustees of the charity are all unpaid volunteers. The charity heavily relies on the support of the trustees for the strategic guidance for the running and direction the charity takes with its objectives.

## ACHIEVEMENT AND PERFORMANCE
**Charitable activities - How our activities deliver public benefit**
**Holyhead Town Centre Forum/Market Street**

Through the leadership and drive of Mon CF staff the Forum has become a well-established organisation representing the business community in the town centre. By acting as a voice for the local small business community the Forum was instrumental in working with the County Council to open Market Street to traffic. This action helped to boost footfall and turnover for many of the businesses in the street. The general increase in activity and vitality in the town centre is no small part due to the input of the Forum.

**Self-employment support**

Mon CF continues to offer a wide range of advice and guidance services for those looking to set up in business. With Menter Mon having lost the Start Up Business Support service contract those local people looking for start-up support now come to Mon CF. This includes individuals sign posted by other agencies and local councils. The support offered also includes assistance with applications to the Holyhead Investment Fund. Mon CF also provides support for existing businesses and this help is extremely varied but is seen as vital to maintain the momentum created in Holyhead especially where new ventures have started up.

**Social Enterprise support**

Local groups and organisations have received assistance from Mon CF with such things as grant applications and general information on where to get assistance for specific issues. The grants applications made with support from Mon CF include Awards for All, Community Chest and Tesco/Groundwork. Many local groups have been successful in their bids for money and Môn CF has played a vital role in this success.

**Llangefni Social Enterprise**

Urban Sports Park
Following the demise of the old skate park in Llangefni, a new steering group was established to look at the possibility of the community making a bid for a new expanded sports park. Among the steering group members are Mon CF directors and staff and we are contributing to a positive move towards securing funds to build a state of the art facility on the Plas Arthur site.

Llangefni Golf Course
Mon CF also have a staff member on the working group that currently runs the Llangefni Golf course and the Environmental team have been assisting the greenkeepers at the course with strimming, grass cutting and training.

**Holyhead Street Market**

Following discussions with Trading Standards at the County Council, Mon CF agreed to take over control of the weekly street market in Holyhead. This is an ongoing process where Mon CF is working with the local business community to secure a vibrant and successful future for the market in Holyhead.

**Grwp Plant bach Llangefni**

Mon CF assisted a group of mothers and grandmothers to establish a new mother and toddler group in Llangefni. The support included guidance and practical support to create a constitution for the group and to provide financial assistance for their first year towards rent on premises.

**Communities for Work**
Communities For Work is a Welsh Government funding employment support programme working alongside the Job Centre. As the Communities for Work programme was not reportable until 01 April 2016, from 01 February 2016 to 31 March 2016 the C4W team used this time to attract new participants and have also been practising their roles by working with Core clients on Mon CF's Core employment programme. Through this the two mentors and the triage officer became accustomed to their new roles and were able to build up caseloads.

**LIFT**
LIFT is a Welsh Government funded employment support programme which support individuals and families living within CF areas who are classed as a workless household. The definition of a LIFT household is one where no person within the household aged 16 or over has worked within the last six months.

During the last financial year, the LIFT programme has supported a total of 33 people into employment of over 16 hours or more, 69 people achieved qualifications, 54 completed work placement opportunities or volunteering opportunities.

## ACHIEVEMENT AND PERFORMANCE

### Charitable activities - How our activities deliver public benefit

**Core Employment Support**

Core is Mon CF's primary Welsh Government funded Employment Support Programme which support individuals and families living within CF areas.

During the last financial year, the Core Employment Support Programme has supported a total of 69 people into employment of over 16 hours or more, 78 people achieved accredited qualifications, 54 completed work placement opportunity or volunteering opportunities.

**Joinery Mentor**

During the year the Academy developed and piloted the delivery of NOCN Level 1 Award in Basic Construction Skills with a focus on joinery.

Joinery mentors have worked alongside participants on various projects such as manufacturing sheds, gates and bird tables, to upcycling pallets into items for sale such as planters, wine racks and recycling bin holders.

**Environmental Mentoring**

During the year the Academy developed and piloted the delivery of units for the NOCN Level 1 Award in Horticulture.

The Environmental mentors have worked alongside participants across all aspects of the environmental projects to not only upskill the participants but to prepare them towards employment.

Work was undertaken for various grass cutting and park inspection contracts in local cemeteries and parks and the maintenance of local green spaces and roundabouts including the A55 roundabout, Parc Cybi roundabouts, Travelodge area and Sunken Gardens and the propagation of plants in Twr Nursery and maintenance of Spring planters around the Town Centre and Newry Beach.

**Training**

542 qualifications delivered over the year through the Academy including Health & Safety, Manual Handling and Emergency First Aid at Work.

**TRAC**

Since the start of the project in November 2015 we have had 8 TRAC pupils attend the Academy. 7 of the pupils have worked in the environmental and joinery sections, 1 pupil completed the 10 Week Programme in Childcare, completing courses in Manual Handling, Fire Safety Awareness, Health & Safety in a Practical Environment, Risk Assessment Awareness, and Emergency First Aid at Work.

**Steps2Success**

Developed a 10-week work preparation programme available to participants interested in pursuing a career in joinery, environmental work, childcare, retail or administration consisting of fundamental health and safety courses and sector specific accredited and awareness courses.

**Magnox**

Application to become a CITB Internet Testing Centre for Health, Safety and Environment tests required for CSCS applicants was submitted.

Became an IOSH Registered Centre for delivery IOSH Working Safely; a recognised route for obtaining a CSCS card.

A dual-controlled car has been purchased and a member of staff is currently in training to become an Advanced Driving Instructor.

**Financial Inclusion**

Working closely with other organisations to help and support clients with a variety of financial needs with the aim of helping them to become more Financially Capable and Inclusive. Support offered during the year includes better off calculations, assistance with the Discretionary Assistance Fund and Warm Home Discount Applications, Utility comparisons and switching, opening of savings accounts for Adults, junior and Community groups through the North Wales Credit Union, assistance with loan Applications through the Credit Union and Signpost clients for other help or specialist advice if it is felt they need to be referred to other supporting organisations if specialist advice is required.

## FINANCIAL REVIEW

**Financial position**

During the year both Restricted and Unrestricted Funds have increased. The Restricted element has increased from £151,452 in March 2015 to £235,698 at the 31st March 2016. The Unrestricted Reserves have increased from £46,729 to £86,714 during the same period.

Following increased trading activities through the various services we have on offer at Mon CF, the charity has created a subsidiary undertaking, under which all trading activity of the charity is to be conducted.

**Principal funding sources**

The principal funding sources for the company were by way of grants from the Welsh Government.

**Continuation of funding**

Funding from the Welsh Government in terms of the Communities First programme is guaranteed until 31 March 2017. Funding for the Lift programme and the Communities for Work programme has been secured up until March 2018. Welsh Government announced on the 11$^{th}$ October 2016 their intention to cease Core Communities First funding but there is still uncertainty as to what date this will apply from. The trustees are aware that there will be changes going forward and are therefore preparing for the potential impact on the company of those changes. Bearing this in mind, the trustees still feel it prudent to prepare the financial statements on a going concern basis as there are resources available and other funding has been secured other than the Core funding in question that will result in Mon CF being able to continue to operate as a going concern.

**Reserves policy**

The Trustees have examined the charity's requirements for reserves in light of the main risks to the organisation. It has established a policy whereby the unrestricted funds not committed or invested in fixed assets held by the charity should be between 3 and 6 months of expenditure. The present level of the general fund meets this criteria.

## FUTURE PLANS

The charity plans to continue with the activities outlined above in the forthcoming years subject to satisfactory funding arrangements.

## STRUCTURE, GOVERNANCE AND MANAGEMENT

**Governing document**

The organisation is a charitable company limited by guarantee and governed by its Memorandum of Association dated 28 May 2012. It was registered with the Charity Commission on 09 August 2012. In the event of the company being wound up members are required to contribute an amount not exceeding £10.

**Subsidiary Company**

The subsidiary company Ynys Trading Ltd is limited by share capital and has an authorised and issued share capital of £1. Ynys Trading Ltd is a 100% subsidiary of the Charitable Company that raises funds through commercial ventures.

**Recruitment and appointment of new trustees**

The Cymunedau'n Gyntaf Mon Communities First is made up from the community/statutory and business/voluntary sector representatives.

The process of appointing trustees/directors has been set out in the Memorandum and Articles and is as follows:

2.5 Yn dilyn pryderon gan rai o'r 11 o siroedd na fu'n llwyddiannus, dyfarnodd Llywodraeth Cymru £7M ychwanegol i'w rannu rhwng canolfannau trefol mawr eraill ac ynddynt ardaloedd amddifad, gan gynnwys Caernarfon a'r Rhyl. Yn ogystal, dyrannodd £1M o arian refeniw i'w rannu rhwng 20 o bartneriaethau canol tref, a llwyddodd y Cyngor i sicrhau £50,000 ohono i gefnogi marchnata, hyrwyddo a digwyddiadau yn Llangefni. Yn Ionawr 2017, dyfarnwyd £3.7M arall ar gyfer benthyciadau i adfywio canol trefi, a llwyddodd y Cyngor i sicrhau £250,000 o'r gronfa hon i gyllido benthyciadau ad-daladwy i gefnogi buddsoddiadau eiddo yng nghanol trefi i ddibenion tai yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch dros gyfnod o 15 mlynedd.

## 3.0 STRATEGAETH AC AMCANION VVP

**3.1** Ar gyfer y rownd gyntaf, gofynnodd Llywodraeth Cymru am Raglen Amlinellol Strategol ac ynddi hyd at 3,000 o eiriau, a chyflwynwyd Rhaglen fanylach ac ynddi hyd at 10,000 o eiriau ar gyfer yr ail rownd. Y weledigaeth strategol gyffredinol oedd bod ***"Caergybi wedi manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i fod yn lle deinamig a chynaliadwy i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo ac ar gyfer ymwelwyr. "***Roedd y rhaglen arfaethedig yn seiliedig ar fynd i'r afael ag angen a chyfleon dan dair thema a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, sef: **Cartrefi, Lle,** a **Phobl.** Mae copïau llawn o'r ddwy Raglen Amlinellol Strategol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor Sir.

3.2 ‘Roedd y strategaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o amcanion o dan bob un o'r tair Thema ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl isod: -

| THEMA | **AMCANION STRATEGOL RHAGLEN VVP CAERGYBI** |
|---|---|
| **CARTREFI** | Galluogi datblygiadau tai newydd, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, cefnogi prynwyr tro cyntaf, gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi, a chynorthwyo rhesymoli ysgolion i greu lle ar gyfer cartrefi newydd |
| **LLE** | Creu gofod newydd i fusnesau, cefnogi busnesau canol y dref, gwneud canol y dref yn fwy hygyrch, cefnogi llety newydd i ymwelwyr, gwella asedau hamdden a thwristiaeth, ac adnewyddu Neuadd y Farchnad fel hyb. |
| **POBL** | Ychwanegu gwerth at Cymunedau yn Gyntaf, cefnogi cyfleusterau cymunedol cynaliadwy, datblygu canolfan Dechrau'n Deg newydd, cyflwyno newid cadarnhaol, a galluogi trawsnewid cadarnhaol |

3.3 Gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o newidiadau i'r canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol ledled Cymru wedi hynny, gan gynnwys set newydd o allbynnau targed, ynghyd â blaenoriaeth i gefnogi tai cymdeithasol newydd trwy VVP.

## 4.0 LLYWODRAETHIANT, RHANDDEILIAID A SGRIWTINI

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ag argymhellion a wnaed mewn adroddiad dyddiedig Mawrth 2014 a oedd yn rhoi pwerau dirprwyol i'r Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy sefydlu a chyflawni rhaglen VVP ac yn awdurdodi dirprwyo elfennau penodol i Benaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Dirprwywyd y gwaith o gyflawni’r thema Cartrefi i'r Pennaeth Tai, dirprwywyd y thema Lle i'r Pennaeth Cynllunio a’r thema Pobl i'r Pennaeth Datblygu Economaidd.

4.2 Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen VVP gyda chynrychiolaeth o blith uwch swyddogion y Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn goruchwylio a llywio'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, a chefnogwyd y Bwrdd gan dri Grŵp Thema gweithredol a oedd yn cyfarfod yn fisol fel arfer. Bu’r rhain yn gymorth i integreiddio’r gwaith ar draws nifer o wasanaethau’r Cyngor. Cyflwynwyd adroddiadau chwarterol ar y rhaglen hefyd i’r bwrdd trawsnewid partneriaethau. Mae gan rai o’r prosiectau mawr hynny a gyllidwyd yn rhannol gan arian VVP eu byrddau prosiect neu eu byrddau rhaglen eu hunain e.e. prosiectau Ysgol Cybi a Neuadd y Farchnad.

4.3 ‘Roedd y gwaith o ddewis y prosiectau’n cael ei arwain gan y tri Grŵp Thema, a dylanwadwyd ar y gwaith hwnnw gan nifer o ffactorau, gan gynnwys y meini prawf cymhwyster ar gyfer VVP a bennwyd gan yr Is-adran Tai a Lleoedd Llywodraeth Cymru, argaeledd ac amseriad cyllidebau, y gallu i gyflawni’n brydlon, argaeledd arian cyfatebol a'r cyfraniad i allbynnau’r Rhaglen VVP. Rhoddwyd Hysbyseb Mynegiant o Ddiddordeb mewn papurau lleol yn 2014 a chafwyd nifer o syniadau ar gyfer prosiectau cymunedol yn ei sgil, a chefnogwyd nifer ohonynt. O dan y thema Cartrefi, cysylltwyd â’r cymdeithasau tai ar gyfer yr ardal i wahodd cynigion ar gyfer prosiectau tai cymdeithasol. Hysbysebwyd a hyrwyddwyd y gronfa buddsoddiad busnes VVP yn eang yn yr ardal. Nid oedd llawer o’r prosiectau a gyflwynwyd wedi eu datblygu’n dda ar y cychwyn, a defnyddiwyd arian VVP ar gyfer amryw o gynlluniau er mwyn cyllido arolygon, cynlluniau pensaernïol, costiadau, cynlluniau busnes a chaniatadau.

4.4 ‘Roedd angen cael cymeradwyaeth y Grŵp Thema perthnasol a’r Bwrdd Rhaglen cyn dyrannu arian VVP. Cyflwynwyd ffurflen asesu ar gyfer pob prosiect gan bob Grŵp Thema a oedd yn disgrifio’r prosiect a sut yr oedd yn cwrdd â'r gwahanol feini prawf, allbynnau, cerrig milltir, barn rhanddeiliaid, hyfywedd a chynaliadwyedd, risgiau a mesurau lliniaru ac ati. Gwnaed sylwadau ar bob prosiect wedyn gan Swyddfa Rhaglen VVP, y Gwasanaeth Cyllid, Rheolwr Adfywio Ardal Llywodraeth Cymru, y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, a’r Uwch Swyddog Cyfrifol. Yna rhoddwyd gwybod i’r rheolwyr prosiect am y dyfarniadau cyllidol a rhoddwyd cyngor iddynt am y gofynion cydymffurfio perthnasol. ‘Roedd y prosiectau allanol hefyd yn destun proses cynnig grant a chytundeb ffurfiol. Rhoddwyd cyngor ac awgrymiadau ynghylch ffynonellau ariannu eraill posib i’r prosiectau na lwyddodd i ddenu cyllid.

4.5 Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid yn ystod y broses o baratoi'r cais mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys ymgynghoriadau a sesiynau gweithdy. Cafwyd 23 o lythyrau o gefnogaeth gan gyrff amrywiol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector. Bu rhanddeiliaid yn cymryd rhan hefyd mewn gwahanol ffyrdd yn ystod y broses o gyflawni’r rhaglen. ‘Roedd y Fforwm Rhanddeiliaid VVP yn cyfarfod bob chwe mis fel arfer ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector. Gwahoddwyd cynrychiolaeth o’r Cyngor Sir gan gynnwys y chwe chynghorydd sir lleol a’r aelodau portffolio perthnasol a swyddogion.

4.6 Trefnwyd sesiynau briffio chwarterol i Aelodau Lleol ac roedd y rhain yn cael eu cynnal mewn lleoliadau prosiectau VVP. Anfonwyd papurau briffio hefyd trwy e-bost. Bu’r rhain yn gymorth i ddiweddaru aelodau lleol am y cynlluniau a’r

cynnydd ac i ateb cwestiynau a chodi materion o bryder neu o ddiddordeb lleol. Rhoddwyd cyflwyniadau ar y Rhaglen VVP hefyd i gyfarfodydd Cyngor Tref Caergybi, Cyngor Cymuned Trearddur a Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Môn.

4.7 Mae cyfathrebu yn agwedd allweddol ar raglenni llwyddiannus, ond mae'n faes y mae angen adnoddau ar ei gyfer. ‘Roedd y cyfuniad o grwpiau thema misol a Bwrdd yn golygu bod cyfathrebu mewnol da rhwng swyddogion. ‘Roedd y cyfathrebu allanol yn 2014/15 yn gyfyngedig oherwydd bod y rhaglen wedi cychwyn yn hwyr, capasiti staff cyfyngedig, yr angen i wario arian cyfalaf o fewn amser penodol, a’r diffyg allbynnau ffisegol y gellid eu dangos. Nododd y Bwrdd Rhaglen bod hwn yn faes yr oedd angen ei wella a chymerwyd nifer o gamau i wneud hynny, gan gynnwys penodi cwmni marchnata i gynorthwyo gyda materion cysylltiadau cyhoeddus, cynhyrchu cylchlythyr, cynnal nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ac ymgyrch Twitter. Cynhyrchwyd pedwar rhifyn o'r cylchlythyr ac fe’u dosbarthwyd i dros 7,000 o gyfeiriadau ar Ynys Gybi a bwriedir cynhyrchu un llythyr newyddion arall yn 2017. Mae'r cyfrifon @holyheadregen / @adfywiocaergybi ar Twitter wedi denu rhyw 650 o ddilynwyr.

4.8 ‘Roedd gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu eraill yn cynnwys mynychu ymgynghoriadau cyhoeddus ar brosiectau penodol. Yn sgil stondin adfywio VVP yng Ngŵyl Caergybi ym mis Gorffennaf 2016 llwyddwyd i gysylltu gyda rhyw 2,000 o aelodau o'r cyhoedd. ‘Roedd ffurflenni atborth o'r digwyddiad hwn yn dangos bod 85% o'r ymatebwyr o'r farn bod Caergybi wedi gwella yn y tair blynedd flaenorol.

## 5.0 CYFLAWNI’R RHAGLEN

5.1 ‘Roedd tri phrif fecanwaith ar gyfer cyflawni’r rhaglen a'i phrosiectau: -
a) y Swyddfa Raglen ar gyfer VVP yn cyflawni’r rhaglen yn uniongyrchol e.e. trefni cynlluniau prosiect ac astudiaethau, digwyddiadau, cysylltiadau cyhoeddus, gwerthuso ac ati
b) swyddogion eraill y Cyngor yn cyflawni prosiectau cyfalaf, gan ddefnyddio arian VVP a ddyrannwyd iddynt trwy broses grantiau mewnol, fel arfer ochr yn ochr ag arian arall
c) sefydliadau eraill yn cyflawni prosiectau cyfalaf, gan ddefnyddio arian VVP a ddyfarnwyd iddynt drwy broses grantiau allanol, fel arfer ochr yn ochr ag arian arall

5.2 Bu cynllunio a chyflawni’r rhaglen VVP yn llwyth gwaith ychwanegol sylweddol i'r Cyngor ac fe secondiwyd un swyddog am sawl mis i arwain y broses gynllunio ac

ymgeisio. Cynlluniwyd a chytunwyd ar gyllideb 'Cyflawni Cynaliadwy' gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau staffio a gweithgareddau cefnogi eraill, gan gynnwys cyhoeddusrwydd, monitro, gwerthuso ac amryw o astudiaethau a oedd yn gysylltiedig ag amcanion y rhaglen. Nid ymgeisiodd y rhan fwyaf o awdurdodau eraill am gyllid i gynorthwyo'r rhaglen a dibynnodd y rheini ar staff craidd. Sefydlwyd Swyddfa Raglen ar gyfer VVP yng Nghanolfan Fusnes Môn. Sefydlwyd swyddfa yn Neuadd y Dref Caergybi fel arbrawf ond ni barhawyd gyda'r trefniant hwn. Serch hynny, ymwelodd staff â safleoedd prosiect a chysylltwyd yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol yn yr ardal VVP.

5.3 ‘Roedd y swyddi staff a ariannwyd drwy'r Rhaglen VVP yn cynnwys rheolwr rhaglen, cydlynydd rhaglen, a swyddog cyllid rhan amser wedi'i leoli yn nhîm grantiau'r Gwasanaeth Cyllid. Am ran o gyfnod y rhaglen defnyddiwyd arian VVP hefyd i gyllido swyddog prosiectau cyfalaf a hyfforddai graddedig. Oherwydd yr oedi o ran cael cymeradwyaeth grant ffurfiol gan LC a ffactorau eraill, nid oedd y capasiti staffio llawn ar gyfer y Rhaglen VVP yn ei le tan yn hwyr yn 2014/15. Cyfrannodd cyllid VVP hefyd at gostau staffio ar gyfer cynllun Neuadd y Farchnad a'r cynllun Menter Treftadaeth Treflun ond bu oedi sylweddol yn y broses o benodi staff ac fe effeithiodd hynny ar gynnydd. Y gwersi allweddol ar gyfer y dyfodol yw sicrhau y penodir staff perthnasol cyn gynted ag y bo modd, a phwysigrwydd cael adnodd cymorth cyllid o'r cychwyn cyntaf.

## 6.0 ARIANNU AC ALLBYNNAU

6.1 Dyrannwyd arian VVP dros dair blynedd o dan saith pennawd cyllidebol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru. ‘Roedd hyblygrwydd i drosglwyddo arian am gyfnod dros do rhwng cyllidebau ym mlynyddoedd 1 a 2 yn unig. Fel arfer, ni chaniatawyd i'r arian a neilltuwyd ar gyfer y flwyddyn lithro i flwyddyn arall ond gwnaed achos arbennig ar gyfer rhywfaint o lithriad i mewn i Flwyddyn 4 yn gysylltiedig â materion cyllid yr UE ar gyfer un prosiect. Y cyfanswm a ddyfarnwyd yn y pen draw oedd fel y canlynol : -

| THEMA | CYLLIDEB | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 C1 & C2 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CARTREFI** | Galluogi Cartrefi Newydd | £ 594k | £ 886k | £ 905k | n / a | £ 2,384k |
| | Cartrefi yn y Dref | £ 199k | £ 742k | £ 273k | n / a | £ 1,215k |
| **LLE** | Canol Tref Hyfyw | £ 389k | £ 113k | £ 842k | n / a | £ 1,345k |
| | Hyb Neuadd y Farchnad | £ 0 | £ 90k | £ 460k | £ 150k | £ 700k |
| **POBL** | Swyddi a Busnes | £ 122k | £ 379k | £ 229k | n / a | £ 730k |
| | Cymuned Weithgar | £ 639k | £ 677k | £ 308k | n / a | £ 1,625k |
| | Cyflawni cynaliadwy | £ 106k | £ 182k | £ 199k | n / a | £ 487k |
| **CYFANSWM A DDYFARNWYD** | | **£2,050k** | **£ 3,072k** | **£ 3,216k** | **£ 150k** | **£ 8,490k** |
| **CYFANSWM A WARIWYD** | | **£2,050k** | **£ 3,070k** | **£ 3,216k** | **I'w gadarnhau** | **£ 8,337k hyd yma** |
| **Gorwariant / Tanwariant** | | £ 0 | £ 2k tanwariant | £ 0 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

6.2 Gwariwyd y gyllideb lawn ar gyfer VVP ym mhob un o'r tair blynedd, ac eithrio tanwariant bach ym Mlwyddyn 2. Gwariwyd y mwyafrif llethol o’r arian yn y pedwerydd chwarter ym mhob un o'r tair blynedd ariannol a golygodd hynny bod y llwyth gwaith ar ei fwyaf tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer y staff perthnasol, ac mae’n ymddangos bod hyn yn wir yn gyffredinol am wariant cyfalaf ar draws llawer o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bu modd trosglwyddo arian dros dro ym Mlynyddoedd 1 a 2 ond nid ym Mlwyddyn 3. Cyflwynwyd terfynau amser llymach a threfniadau monitro cerrig milltir yn y drydedd flwyddyn, ac un wers allweddol ar gyfer y dyfodol yw cyflwyno trefniadau llym ar gyfer rheolwyr prosiect i fonitro cerrig milltir o'r cychwyn cyntaf ac amlygu a chraffu yn fwy trylwyr ar lithriadau o ran eu cyflawni.

6.3 ‘Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r dyraniadau VVP ddenu arian sylweddol ychwanegol a gosodwyd targed o ddenu £22 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf o ffynonellau eraill. Erbyn hyn, rhagwelir cyfanswm o tua £37M o fuddsoddiadau eraill yn ardal y Rhaglen VVP erbyn 2020, sy'n cynnwys tua £9m gan yr awdurdod lleol (ysgol newydd yn bennaf), £ 9M gan y sector preifat, tua £ 7M o ffynonellau LlC eraill, tua £ 5m gan y Loteri, tua £ 3.5m gan yr UE a thua £ 2M gan y trydydd sector (cymdeithasau tai yn bennaf). Nodir cyfanswm pob cronfa ar ddiwedd Atodiad A.

6.4 Amlinellodd Llywodraeth Cymru 32 o gategorïau allbwn i’w defnyddio ar draws Cymru, a chytunwyd ar dargedau ar gyfer pob un o'r rhain ar ddechrau'r rhaglen gyda phob awdurdod lleol. Mae'r Cyngor hefyd wedi gosod 7 targed allbwn

ychwanegol.  Mae’r allbynnau wedi cael eu monitro'n agos a rhoddwyd sgôr CAG i bob un - gweler Atodiad A. O'r 39 o allbynnau, mae 32 yn 'wyrdd' (wedi cyrraedd neu ragori ar y targed), 5 yn 'ambr' (yn is na'r targed ond yn uwch na 50% o'r targed), a 2 yn 'goch' (o dan 50% o'r targed). Y ddau sy’n 'goch' yw creu cartrefi marchnad a thai fforddiadwy ‘gan ddefnyddio arian VVP' - er bod llawer o'r cartrefi hyn yn cael eu hadeiladu yn stad Tyddyn Bach cafwyd ar ddeall na chawn gyfrif y rhain gan na ddyfarnwyd unrhyw arian VVP mewn gwirionedd. O'r allbynnau 'ambr', ‘rydym yn disgwyl am fwy o wybodaeth am ddau ohonynt, mae tri yn agos i'r targed, a gwireddir yr un sy'n weddill ar ôl Mawrth 2020.

6.5 Mae'n ymddangos bod y canlyniadau o ran cyflawni’r targedau allbwn yn gyffredinol dda. Mae gan yr holl allbynnau ddiffiniad manwl iawn a rhaid cyflwyno tystiolaeth i ddangos y llwyddwyd i’w cyflawni ac mae hynny wedi bod yn llwyth gwaith sylweddol iawn. Mae'r broses werthuso wedi argymell symleiddio’r prosesau ar gyfer casglu data ynghylch allbynnau ar gyfer rhaglenni adfywio Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## 7. GWERTHUSO’R RHAGLEN

7.1 Mae'r Rhaglen VVP wedi bod yn destun nifer o brosesau monitro ac adolygu. Mae hyn wedi cynnwys Grŵp Monitro Rhaglen sy'n cynnwys cynrychiolaeth fewnol ac allanol, dau Adolygiad Gateway a oedd yn cynnwys adolygwyr allanol, a chwmni gwerthuso allanol. Mae'r cwmni hwn wedi paratoi gwerthusiad canol tymor eisoes ac mae wedi cychwyn gweithio ar yr adroddiad gwerthuso terfynol a fydd hefyd yn adnabod blaenoriaethau i’r dyfodol. Mae’r negeseuon gwerthuso interim allweddol yn cynnwys pwysigrwydd y swyddfa raglen a chyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid a gor-gymhlethdod y gofynion ar gyfer tystiolaethu allbynnau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.  Tynnodd yr Adolygwyr Gateway sylw at faterion a phryderon penodol gyda thri  phrosiect mawr  yr oedd yn ymddangos eu bod mewn perygl o lithro y tu hwnt i'r amserlen ar gyfer y rhaglen. Cymerodd y Bwrdd Rhaglen gamau o ganlyniad er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn benodol.

7.2 Mae'r tabl canlynol yn dangos yr Amcanion Strategol a restrir yn y Rhaglen Amlinellol Strategol ac yn nodi a lwyddwyd i’w cyflawni ai peidio: -

| | AMCAN STRATEGOL GWREIDDIOL | CANLYNIAD WEDI EI GYFLAWNI? |
|---|---|---|
| CARTREFI | Galluogi Datblygu Tai Newydd | Do - 6 o ddatblygiadau tai cymdeithasol newydd gan gymdeithasau tai wedi cael cymorth |
| | Cartrefi a Rhesymoli Ysgolion | Do - VVP wedi cefnogi moderneiddio ysgolion cynradd sy'n caniatáu rhyddhau safleoedd yr ysgolion sy'n cau |
| | Cartrefi Gwag | Do - VVP wedi helpu i adnewyddu 16 o gartrefi gwag ac wedi helpu 18 o brynwyr tro cyntaf |
| | Prynwyr Tro Cyntaf | |
| | Cartrefi Ynni Effeithlon | Do – sgôr ynni 71 o gartrefi wedi gwella |
| LLE | Gofod Busnes Newydd | Dim ond yn rhannol - VVP wedi gwella mannau busnes yn bodoli ond bu'r cynnydd arwynebedd newydd yn gyfyngedig. |
| | Busnes Canol y Dref | Do – 40 o fusnesau canol tref wedi cael cymorth |
| | Llety newydd i Ymwelwyr | Dim ond yn rhannol – ni gafwyd cyllid penodol gan LC ond mae rhai cynlluniau llai wedi cael arian trwy'r gronfa HIF |
| | Hyb Neuadd y Farchnad | Wedi ei gynllunio – gwaith ar Gam 1 y prosiect wedi cychwyn |
| | Gwella Asedau Hamdden a Thwristiaeth | Do / wedi ei gynllunio - VVP wedi ariannu cynlluniau porth twristiaeth ERDF newydd ac wedi uwchraddio nifer o gyfleusterau chwaraeon |
| | Mynediad i Ganol y Dref | Do - cynllun gwella Stryd y Farchnad wedi digwydd |
| POBL | Ychwanegu Gwerth i Cymunedau yn Gyntaf | Do / wedi ei gynllunio - VVP wedi cefnogi nifer o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf a phrosiectau cymunedol a chreu cynlluniau i'r dyfodol |
| | Cymunedau cynaliadwy | Wedi ei gynllunio - VVP wedi cefnogi nifer o gynlluniau asedau cymunedol ee i wella Parc Caergybi a Sinema'r 'Empire' |
| | Canolfan Dechrau'n Deg | Do – adeiladwyd Canolfan Dechrau'n Deg newydd |
| | Cyflawni Newid | Do – cyflawnwyd y rhaglen VVP |
| | Galluogi Trawsnewid | Dim ond yn rhannol / wedi ei gynllunio – mae sicrhau buddion cymunedol ar brosiectau wedi bod yn heriol |

7.3 'Roedd y meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi y dylai VVP ychwanegu gwerth at arian cyhoeddus sydd eisoes ar gael. Dyfarnwyd yn agos i £ 4 miliwn o gyllid VVP i brosiectau'r Cyngor Sir. Mae'n amlwg na fyddai nifer o'r prosiectau hyn wedi digwydd heb arian VVP. Mae'r Rhaglen VVP hefyd wedi cefnogi cynlluniau i drawsnewid a / neu drosglwyddo nifer o asedau'r Cyngor Sir, gan gynnwys Parc Caergybi.

7.4 Rhestrir isod gyfraniadau allweddol y Rhaglen VVP i amcanion corfforaethol y Cyngor: -

| **Amcan Corfforaethol** | **Cyfraniad y Rhaglen VVP** |
|---|---|
| *B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu ein Heconomi* | Drwy gefnogi 83 o fusnesau bach a nifer o brosiectau gwella cyfleusterau cymunedol |
| *C - Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion* | Drwy ychwanegu gwerth at y prosiect ysgol gynradd newydd a'r prosiect Dechrau'n Deg |
| *CH - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi* | Drwy gyd-gyllido 6 o gynlluniau tai cymdeithasol, a chefnogi prynwyr tro cyntaf a gwaith hyfforddi cymunedol |
| *D - Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd* | Trwy wella cyfleusterau pêl-droed a chyd-ariannu gwaith moderneiddio'r Llyfrgell yn Neuadd y Farchnad |

7.5 Adolygwyd ac adroddwyd ar faterion a risgiau yn holl gyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen a chawsant sylw hefyd yn y Grwpiau Thema. ‘Roedd tanwariant yn risg gyson ym mhob un o'r tair blynedd ond llwyddwyd i'w hosgoi oherwydd cynllunio wrth gefn effeithiol. ‘Roedd perygl sylweddol o fethu cyflawni allbynnau a chyd-ariannu ar y cychwyn ond fe leihaodd y perygl hwn dros amser wrth gyflawni'r rhaglen. Nodwyd bod cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn fater risg allweddol ym Mlwyddyn 1, ond gostyngodd y risg wrth i fwy o weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu ddigwydd yn 2015 ar ôl gweld cynnydd yn nifer y staff. ‘Roedd risgiau lefel rhaglen sylweddol gyda rhai prosiectau cymhleth mawr penodol, ond llwyddwyd i osgoi'r risgiau hynny neu i'w rheoli e.e. cafodd y tanwariant a achoswyd gan lithriad ar gynlluniau penodol tuag at ddiwedd y blynyddoedd ariannol ei ailddyrannu gan y Bwrdd i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau cyfalaf eraill a oedd yn gallu symud ymlaen, a thrwy drosglwyddo arian dros dro rhwng cyllidebau.

7.6 Nodir yr isod fel ystyriaethau allweddol ar gyfer rhaglenni tebyg yn y dyfodol : -

- Adnoddau staffio (gan gynnwys adnoddau cyllid) i fod yn eu lle o'r cychwyn cyntaf
- Caniatáu amser ac adnoddau digonol i ddatblygu prosiectau cyfalaf fel eu bod yn barod
- Cynlluniau ac adnoddau cyfathrebu i fod yn eu lle cyn dechrau cyflawni
- Osgoi gofynion monitro a thystiolaethu gorgymhleth ar gyfer allbynnau
- Sicrhau trefniadau monitro cadarn ar gyfer cerrig milltir prosiectau a thynnu sylw at lithriad

## 8 Olynydd i'r Rhaglen VVP

8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n anffurfiol fod rhaglen adfywio trefol newydd yn debygol o ddigwydd, yn dechrau ym mis Ebrill 2018 mae'n debyg, ond nid oes cyhoeddiad ffurfiol wedi'i wneud eto. Rhagwelir y bydd unrhyw raglen yn destun proses ymgeisio gystadleuol debyg ar sail meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond gyda mwy o bwyslais ar bartneriaeth ranbarthol.

| **ATODIADAU** |
|---|
| A - Allbynnau a chyd-gyllido<br>B - Rhestr o brosiectau cyfalaf a gynorthwywyd gydag arian VVP Caergybi ar gyfer 2014-17<br>http://www.anglesey.gov.uk/business/regeneration-and-investment/vibrant-and-viable-places-holyhead/ |

Awdur: Dewi G. Lloyd
Teitl y Swydd: Rheolwr Adfywio
Dyddiad: 20fed Mehefin 2017

*ATODIAD / APPENDIX A*

***RHAGLEN VVP CAERGYBI / HOLYHEAD VVP PROGRAMME :***
***ALLBYNNAU A CHYD-GYLLIDO / OUTPUTS & CO-FUNDING REALISED***

| OUTPUT | ALLBWN | TARGED/ TARGET | RHAGWELIR/ PREDICTED 31/03/2020 | CAG RAG |
|---|---|---|---|---|
| Private Investment made | Buddsoddiad Preifat | £20,220,000 | £14,342,891 | |
| Non-WG Investment | Buddsoddiad heblaw gan Lywodraeth Cymru | £27,960,000 | £24,877,482 | |
| Value of Welsh SME contracts | Gwerth gwaith i fusnes o Gymru | £23,230,000 | £22,281,564 | |
| Welsh SME's securing contracts | Contractau i fusnesau o Gymru | 104 | 259 | |
| Market Homes funded | Tai Marchnad a ariannwyd | 173 | 33 | |
| Empty Homes Filled | Tai Gwag wedi eu Llenwi | 14 | 21 | |
| Social Homes funded | Tai Cymdeithasol a ariannwyd | 9 | 52 | |
| Affordable Units funded | Tai Fforddiadwy a ariannwyd | 39 | 6 | |
| Land Developed - Jobs | Tir a Ddatblygwyd - Swyddi | 1 Ha | 3.5 Ha | |
| Land developed - Other | Tir a Ddatblygwyd - Arall | 7 Ha | 3.5 Ha | |
| Business Premises Built / Improved | Creu/ Gwella Eiddo Busnes | 2,260 m2 | 17,575 m2 | |
| Jobs Accommodated | Creu Lle i Swyddi | 79 | 136.5 | |
| Enterprises Accommodated | Creu Lle i Fusnesau | 20 | 23 | |
| New Construction Jobs | Swyddi Adeiladu Newydd | 144 | 156 | |
| Gross Jobs Created | Swyddi a Grewyd | 42 | 60.5 | |
| Traineeships created | Lleoedd Hyfforddi a Grewyd | 41 | 59 | |
| Job Qualifications Gained | Ennill Cymwysterau | 8 | 128 | |
| People Completing Courses | Pobl yn cwblhau cyrsiau | 10 | 104 | |
| People helped into Work | Pobl yn cael help i Waith | 15 | 26 | |
| Economically Inactive Persons Engaged | Cyswllt a phobl Economaidd Anweithgar | 145 | 124 | |
| Trainees Retained | Cadw Hyfforddeion | 6 | 33 | |
| Trainees going on to Jobs | Hyfforddeion ymlaen i Swyddi | 16 | 20 | |
| Trainees going on to Learning | Hyfforddeion ymlaen i Ddysgu | 9 | 13 | |
| Community Initiatives - Health | Mentrau Cymunedol - Iechyd | 1 | 3 | |
| Community Initiatives – | Mentrau Cymunedol - Addysg / | 4 | 5 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Education*** | ***Hyfforddi*** | | | |
| ***Community Initiatives – Young People*** | ***Mentrau Cymunedol – Pobl Ifanc*** | ***1*** | ***4*** | |
| ***Homes energy performance improved*** | ***Gwella perfformiad ynni cartrefi*** | ***60*** | ***151*** | |
| ***Reduction in CO2 produced*** | ***Lleihad mewn lefelau CO2*** | ***4.7 t*** | ***363.8 t*** | |
| ***Value of Recycled materials used*** | ***Gwerth defnyddiau ailgylchu a ddefnyddiwyd*** | ***£450,000*** | ***TBC*** | |
| ***Waste reduced/recycled/ reused*** | ***Lleihau/ailgylchu/ailddefnyddio Gwastraff*** | ***5,000 tonnes*** | ***TBC*** | |
| ***Energy Saved*** | ***Arbed Ynni*** | *Not Set / Heb Osod* | ***TBC*** | |
| ***Renewable Electricity produced*** | ***Creu Ynni Adnewyddol*** | *Not Set / Heb Osod* | ***TBC*** | |
| ***LOCAL TARGET*** | ***TARGED LLEOL*** | | | |
| ***New Primary School*** | ***Ysgol Gynradd Newydd*** | ***1*** | ***1*** | |
| ***New Area Library*** | ***Llyfrgell Ardal Newydd*** | ***1*** | ***1*** | |
| ***SME's Assisted*** | ***Cefnogi Busnesau Bach*** | ***15*** | ***83*** | |
| ***New Flying Start Centre*** | ***Canolfan Dechrau'n Deg Newydd*** | ***1*** | ***1*** | |
| ***Community Facilities created/improved*** | ***Gwella/ creu cyfleusterau cymunedol*** | ***6*** | ***6*** | |
| ***Additional Childcare Places*** | ***Lleoedd Gofal Plant Ychwanegol*** | ***48*** | ***100*** | |
| ***Jobs Safeguarded (inc construction jobs)*** | ***Swyddi a Ddiogelwyd (yn cynnwys rhai adeiladu)*** | *Not Set / Heb Osod* | ***812*** | |
| | | | | |
| ***OTHER (NON VVP) CAPITAL FUNDING INVESTED*** | ***CYLLID ARALL (HEBLAW VVP) A FUDDSODDWYD*** | ***TARGED/ TARGET*** | ***Disgwylir Erbyn/ Predicted by 31/03/2020*** | ***CAG RAG*** |
| ***Local Authority*** | ***Awdurdod Lleol*** | ***£4,200k*** | ***£8,850k*** | |
| ***European Union*** | ***Undeb Ewropeaidd*** | ***-*** | ***£3,540k*** | |
| ***WG Social Housing Grants*** | ***Grantiau Tai Cymdeithasol LLC*** | ***-*** | ***£851k*** | |
| ***Private Sector*** | ***Sector Preifat*** | ***£9,460k*** | ***£9,215k*** | |
| ***Other Welsh Government*** | ***Llywodraeth Cymru Arall*** | ***£5,250k*** | ***£7,388k*** | |
| ***Other Public Sector (including Lottery)*** | ***Sector Cyhoeddus Arall (yn cynnwys Loteri)*** | ***£2,285k*** | ***£4,885k*** | |
| ***Third Sector*** | ***Trydydd Sector*** | ***£950k*** | ***£2,400k*** | |
| | | | | |
| ***Other Funding Total*** | ***Cyfanswn Cyllid Arall*** | ***£22,145k*** | ***£37,169k*** | |

***ATODIAD / APPENDIX B***

***RHESTR PROSIECTAU A GEFNOGWYD GYDA CYLLID VVP CAERGYBI 2014-17***
***LIST OF PROJECTS SUPPORTED WITH HOLYHEAD VVP FUNDING 2014-17***

***THEMA CARTREFI / HOMES THEME***

| ***Cynllun / Project*** | ***Arwain/ Lead*** | ***Cost*** | ***VVP*** |
|---|---|---|---|
| *Rhes Capel -Tai Cymd// Social Homes* | *NWHA* | *£532,618* | *£309,140* |
| *Llain Cyttir - Tai Cymd./ Social Homes* | *Grwp Cynefin* | *£1,163,230* | *£500,762* |
| *Cross Street - Tai Cymd./ Social Homes* | *NWHA* | *£539,119* | *£60,420* |
| *Garreg Domas - Tai Cymd./ Social Homes* | *NWHA* | *£800,006* | *£473,362* |
| *Bwlch Alltran - Tai Cymd./ Social Homes* | *Grwp Pennaf* | *£1,124,360* | *£160,526* |
| *Yr Hen Briordy- Cymd./ Social Homes* | *Grwp Cynefin* | *£915,000* | *£531,011* |
| *Gwella Llys Watling Improvements* | *CSYM/ IACC* | *£293,288* | *£76,388* |
| *Peilot Ynni/ Energy Pilot* | *Grwp Cynefin* | *£33,350* | *£22,000* |
| *Gwella Tan yr Efail Ph1 Improvts* | *CSYM/ IACC* | *£934,058* | *£262,797* |
| *Gwella Tan yr Efail Ph2 Improvts* | *CSYM/ IACC* | *£1,139,882* | *£67,347* |
| *Grant PTC/ FTB Grant* | *CSYM/ IACC* | *£1,195,768* | *£332,093* |
| *Homebuy* | *Grwp Cynefin* | *£246,905* | *£80,500* |
| *Homes Project Support & Studies* | *CSYM/ IACC* | *£14,674* | *£14,674* |
| *Plas Alltran - Cynlluniau/Plans* | *CSYM/ IACC* | *£22,972* | *£22,972* |
| *Safle Crown Site – Clirio/Clearance* | *CSYM/ IACC* | *£167,111* | *£167,111* |
| *Moderneiddio Ysgolion Cymradd / Primary Schools Modernisation* | *CSYM/ IACC* | *£10,852,379* | *£518,460* |

***THEMA LLE / PLACE THEME***

| ***Cynllun / Project*** | ***Arwain/ Lead*** | ***Cost*** | ***VVP*** |
|---|---|---|---|
| *Stryd y Farchnad/ Market Street* | *CSYM/ IACC* | *£397,374* | *£397,374* |
| *Menter Treftadaeth Trefol (MTT) / THI - Townscape Heritage Initiative* | *CSYM/ IACC & Preifat/ Private* | *£1,946,579* | *£446,579* |
| *Cynlluniau & Prosiectau Canol Tref / Town Centre Plans & Projects* | *CSYM/ IACC, MonCF, Preifat/ Private, CTC/HTC* | *£115,510* | *£84,160* |
| *Gwella Amgylchedd/ Env.Improvts* | *MonCF* | *£20,000* | *£20,000* |
| *Cybi School* | *CSYM/ IACC* | *£94,606* | *£94,606* |
| *Pafinau / Footways* | *CSYM/ IACC* | *£98,624* | *£98,624* |
| *Y Parc / The Park* | *CSYM / IACC* | *£28,064* | *£22,289* |
| *Cynllun Twristiaeth ERDF Tourism Plans* | *CSYM/ IACC* | *£19,500* | *£19,500* |
| *Neuadd y Farchnad / Market Hall* | *CSYM / IACC* | *£3,126,362* | *£751,362* |

***THEMA POBL / PEOPLE THEME***

| ***Cynllun / Project*** | ***Arwain / Lead*** | ***Cost*** | ***VVP*** |
|---|---|---|---|
| *Gwella Unedau Penrhos Units Upgrade* | *CSYM/ IACC* | *£345,000* | *£305,022* |
| *Cynlluniau Parcio / Parking Schemes* | *CSYM/ IACC* | *£50,918* | *£45,918* |
| *Grantiau Busnes Bach/ Small Business Grants (HIF)* | *CSYM/ IACC* | *£375,922* | *£282,711* |
| *Busnesau Bach Canol y Dref /Town Centre Small Businesses* | *TC Forum & MonCF* | *£53,316* | *£32,128* |
| *Stadiwm Pel Droed / Soccer Stadium* | *CSYM/ IACC* | *£111,619* | *£86,040* |
| *Canolfan Hamdden / Leisure Centre Upgrade* | *CSYM/ IACC* | *£330,000* | *£250,000* |
| *Canolfan Dechrau'n Deg/ Flying Start Centre* | *CSYM/ IACC* | *£1,165,000* | *£335,000* |
| *Ehangu Clwb Codi Pwysau/ Extend HAWFC* | *HAWFC* | *£125,000* | *£60,000* |
| *Caban Kingsland Childcare Facility* | *Caban Kingsland* | *£184,928* | *£149,245* |
| *Canolfan Kingsland Community Centre* | *Ymddiriodolwyr/ Trustees* | *£280,000* | *£140,000* |
| *Clwb Holyhead Hotspurs* | *Hotspurs FC* | *£32,537* | *£24,267* |
| *Cynlluniau Cyngor Tref / Town Council Projects* | *Town Council/ Cyngor Tref* | *£45,872* | *£40,000* |
| *Cynlluniau Trearddur FC Plans* | *CSYM/ IACC* | *£17,194* | *£14,849* |
| *Maes Chware Millbank All-Weather Pitch* | *CSYM / IACC* | *£15,795* | *£15,306* |
| *Clwg Gymnasteg Ynys Mon Gymnastics Club* | *YM Gymnastics Club* | *£88,103* | *£41,142* |
| *Paratoi Cynlluniau /Facilities Plans* | *CSYM / IACC* | *£149,043* | *£129,162* |
| *Canolfan Millbank Community Centre* | *Ymddiriodolwyr/ Trustees* | *£468,455* | *£80,000* |
| *Hyfforddi Cymunedol / Community Training* | *MonCF* | *£269,032* | *£89,999* |
| *Cynllun Partneriaeth Tirlun CTL / HLF Landscape Partnership Plan* | *CSYM / IACC* | *£22,638* | *£22,638* |
| *Cyfleusterau Trearddur Facilities* | *CSYM / IACC* | *£32,798* | *£24,718* |
| *Llwybr Ravenspoint Road Coastal Path* | *CSYM / IACC* | *£27,400* | *£23,000* |
| *Cynllun Morglawdd / Breakwater Plans* | *CSYM / IACC* | *£138,875* | *£35,000* |
| *Troliau Ailgychu /Recycling Trolibocs* | *CSYM/ IACC* | *£91,151* | *£86,166* |
| *Offer i'r Anabl / Disabled Sports Hub* | *CSYM / IACC* | *£84,941* | *£20,084* |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **26 a 27 Mehefin, 2017** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Enwebu Aelodau Sgriwtini i wasanaethu ar Banelau a Byrddau** |
| **CADEIRYDD(ION) SGRIWTIN:** | **Y Cynghorwyr Aled Morris Jones a Gwilym Owen Jones** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | • **Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)**<br>• **Y Cynghorydd R Meirion Jones (Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant)**<br>• **Y Cynghorydd John Griffith (Cyllid)**<br>• **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Corfforaethol)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Amherthnasol** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen G Davies (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro)**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

**A1: Aelodaeth y Panelau**
Gofynnir i'r **ddau Bwyllgor Sgriwtini** enwebu:

- 1 Aelod i wasanaethu ar y **Panel Gwella Gwasanaethau Plant**
- 2 Aelod i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Cyllid**
- 4 Aelod i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion**
- 1 Aelod i wasanaethu ar y **Panel Rhiantu Corfforaethol**

**A2: Aelodaeth o'r Byrddau Rhaglen Corfforaethol**

- Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol enwebu 1 Aelod i wasanaethu ar y **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethiant a Phrosesau Busnes** a sicrhau bod dirprwy hefyd yn cael ei enwebu i fynychu cyfarfodydd y bwrdd pan fydd yr Aelod enwebedig yn methu bod yn bresennol.

- Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio enwebu 1 Aelod i wasanaethu ar y **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaeth** a sicrhau bod dirprwy hefyd yn cael ei enwebu i fynychu cyfarfodydd y bwrdd pan fydd yr Aelod enwebedig yn methu bod yn bresennol.

**A3: Aelodaeth Rhaglen Gwasanaeth / Byrddau Prosiect**
Enwebu 1 Aelod Sgriwtini i wasanaethu ar bob un o'r byrddau rhaglen / prosiect y cyfeirir ato yn rhan 3 isod.

**A4: Bwrdd Diogelu Corfforaethol**
Nodi y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gwasanaethu ar y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

**A5: Trefniadau Adrodd**
Nodi'r trefniadau adrodd fel y cânt eu hamlinellu yn rhan 4 isod.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Bydd yr Aelodau'n gwybod bod nifer o banelau a byrddau wedi cael eu sefydlu a bod angen cynrychiolaeth o blith yr Aelodau Sgriwtini arnynt.

2.2 Mae'r cylch gorchwyl neu'r dogfennau sgopio sy'n berthnasol i bob panel a bwrdd ynghlwm yma (fel a restrir yn y tabl isod) er mwyn cynorthwyo Aelodau yn y broses dewis.

2.3 Dylai Aelodau fod yn ymwybodol nid yw'r rheolau sy'n ymwneud â "Chydbwysedd Gwleidyddol" yn berthnasol i aelodaeth y panelau a'r byrddau hyn.

## 3.0 BYRDDAU RHAGLEN TRAWSNEWID A BYRDDAU PROSIECT NEWID GWASANAETHAU

3.1 **Aelodaeth Byrddau**: mae nifer o fyrddau rhaglen Gwasanaeth wedi cael eu sefydlu ar lefel gwasanaeth er mwyn goruchwylio trawsnewidiad prosiectau unigol y gwasanaethau hynny:

- Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion
- Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Oedolion
- Bwrdd y Rhaglen Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Treftadaeth
- Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid

Daw'r byrddau prosiect dan adain dau o Fyrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol, sef y **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethiant a Phrosesau Busnes** a'r **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau**.

Sefydlwyd byrddau rhaglen fel fforwm i gynnwys aelodau yn y prosiectau trawsnewid ar lefel gwasanaeth a hefyd i sicrhau consensws. Cynigir bod aelodaeth gyfredol y byrddau prosiect unigol yn aros fel y mae. Fodd bynnag, bydd angen cau rhai bylchau o ran aelodaeth a hynny o ganlyniad i'r Etholiad diweddar. Dylid nodi bod Aelodau'n cyfrannu fel Aelodau unigol ar y byrddau prosiect hyn ac nid fel cynrychiolwyr Sgriwtini.

3.2 **Rôl y Byrddau Rhaglen Trawsnewid, Byrddau Rhaglen Gwasanaeth a Sgriwtini:**

Ceir crynodeb o'r berthynas rhwng y Byrddau a Sgriwtini yn **ATODIAD 6**.

## 4.0 TREFNIADAU ADRODD

4.1 Mae'n bwysig sefydlu trefniadau adrodd clir rhwng y panel a'r byrddau a'r pwyllgorau sgriwtini perthnasol. Cynigir y trefniadau isod:

- **Panel Gwella Gwasanaethau Plant** – adroddiadau rheolaidd gan bob cyfarfod o'r panel yn mynd i ymddangos fel eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.
- **Panel Sgriwtini Cyllid** – adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn modd sy'n adlewyrchu'r llinellau amser allweddol yn y broses gyllidebol.
- **Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion** – adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan sicrhau aliniad gyda'r broses archwilio reoleiddiol.
- **Panel Rhiantu Corfforaethol** – mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.
- **Bwrdd Diogelu Corfforaethol** – Adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Gallai cyfeirio materion at y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ôl y gofyn.
- **Byrddau Rhaglen Trawsnewid** – crynodeb lefel uchel ar statws cyfredol y ffrydiau gwaith trawsnewid unigol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol, fel rhan annatod o'r broses o adrodd ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Mae enghraifft o'r crynodeb lefel uchel a'r nodyn esboniadol ynghlwm (**ATODIAD 7).**

| ATODIADAU |
|---|
| **Atodiad 1:** Sgôp a Chylch Gorchwyl y Panel Gwella Gwasanaethau Plant |
| **Atodiad 2:** Sgôp a Cylch Gorchwyl y Panel Sgriwtini Cyllid |
| **Atodiad 3:** Cylch Gorchwyl y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Atodiad 4:** Sgôp a Chylch Gorchwyl y Panel Rhiant Corfforaethol |
| **Atodiad 5:** Bwrdd Diogelu Corfforaethol |
| **Atodiad 6:** Rôl y Byrddau Trawsnewid, Byrddau Rhaglen Gwasanaeth a Sgriwtini |
| **Atodiad 7:** Crynodeb lefel uchel a nodyn esboniadol ar statws cyfredol ffrydiau gwaith drawsnewid |

Awdur: Anwen Davies
Teitl y Swydd: Rheolwr Sgriwtini Dros Dro
Dyddiad: 12/06/17

# ATODIAD 1

## PANEL SGRIWTINI – PLANT

### Sgriwtini o'r Gwasanaethau Plant

Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[1] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr efo methiannau yn agweddau eraill y system drwyddi draw. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

### Ein Trefniadau Lleol

Mae'r trefniadau hyd yma o gwmpas y panel trawsbleidiol wedi'n galluogi i feithrin nifer o egwyddorion pwysig fydd yn sylfaen gref wrth symud ymlaen i ddatblygu model craffu ar gyfer y gwasanaethau plant:

- Datblygu model yn ffocysu ar grŵp llai o aelodau
- Aelodau'n datblygu gwell ddealltwriaeth o'r maes plant
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Gwnaed 14 o argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal yn sgîl ei harolwg diweddar ac 'roedd un o'r argymhellion rheiny'n ymwneud yn benodol â chefnogaeth wleidyddol i'r gwasanaethau plant, sef:

**"…. 8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal."**

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp plant fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

[1] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

i. Datblygu model o weithio yn y maes plant sy’n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
ii. Cryfhau gallu’r Aelodau i herio perfformiad drwy wella gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth a / neu wasanaethau
iii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau y Gwasanaeth, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda’r arbenigedd a’r berchnogaeth i arwain trafodaethau yn ymwneud â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
v. Cynnig cefnogaeth i’r Pencampwr Pobl Ifanc

**Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel**

**Yr hyn mae’r Arolygaeth Gofal yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wleidyddol:**

“Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i’w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau’n effeithiol.”

Prif rôl y panel plant fydd:

1. Monitro a chraffu mewn ffordd ystyrlon a chadarn ar:

   - gynnydd a’r pellter a deithiwyd yn erbyn y cynllun gwella gwasanaeth a gyhoeddwyd mewn ymateb i arolwg diweddar yr AGGCC
   - berfformiad meintiol ac ansoddol y gwasanaethau plant. Hyn i gynnwys datblygu sgorfwrdd penodol i’r maes plant

   Sylw arbennig i fonitro agweddau ansoddol y gwasanaeth a phrofiadau unigolion sy’n derbyn cefnogaeth a gwasanaethau.

2. Sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed wrth ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau

3. Cynnig sicrwydd i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr elfennau canlynol:

   - cynnydd digonol, amserol wrth wireddu’r cynllun gwella
   - perfformiad meintiol ac ansoddol y gefnogaeth a’r gwasanaethau gofal ar gael i blant a phobl ifanc.

**Aelodaeth y Panel**

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- Aelodau Etholedig – bydd cynnal elfen o barhad yn yr aelodaeth yn bwysig. Fel man cychwyn, cynigir 1 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini, Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Deilydd Cysgodol gydag Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid
- Swyddogion – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Rheolwr Sgriwtini.

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

**Cadeirio**

Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

**Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlu fel panel sefydlog ac felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiadau monitro gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

- **Cworwm** – ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

# ATODIAD 2

## PANEL SGRIWTINI – CYLLID

### Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."*[2]

*"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?"* yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

[2] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

## Ein Trefniadau Lleol

Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y 2 flynedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da. Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatau dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

'Roedd y gwaith craffu gan banel sgriwtini ar wireddu arbedion effeithlonrwydd 2014/15 a 2015/16 hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn ffocysu ar grwp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Mae ein gwaith craffu ariannol bellach yn dechrau amlygu fel model posibl o arfer da.

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp cyllid fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

## Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Amwytho** | Amwytho aelodau'r Panel | Mehefin |
| **Monitro Chwarterol y Gwariant Refeniw a** | Craffu gwariant yn erbyn proffîl cyllidebau | Chwarterol |

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Chyfalaf** | | |
| **Cyllideb y flwyddyn i ddod** | Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Mehefin |
| | Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae'n gweithio | Haf |
| | Trosolwg o sefyllfa'r arbedion | Yr Hydref |
| | Craffu risgiau'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig | |
| | Craffu pa mor gyraeddadwy ydy'r cynigion | |
| | Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol | |
| **Cynllun Cyllidol Tymor Canol** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Haf |
| **Rheoli Dyledion** | Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu) | I'w gadarnhau (dibynnol ar argaeledd gwybodaeth wedi'i pharatoi'n rhanbarthol) |
| **Polisi Rhyddhad Treth Busnes** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | I'w gadarnhau (darn o waith mewn un cyfarfod yn unig) |
| **Cynllun Busnes HRA** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Ionawr |
| **Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn** | Cwestiynu a chraffu | Amserlen i'w chadarnhau gan y Panel |

## Aelodaeth y Panel

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 2 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
- **Swyddogion** – Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Gwasaneth Refeniw a Budd-daliadau, Rheolwr Sgriwtini

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

## Cadeirio

Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

## Amlder Cyfarfodydd a Chworwm

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor (rhagwelir oddeutu 6-8 cyfarfod/ blwyddyn)

- **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

## Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

# ATODIAD 3

## CYLCH GORCHWYL Y PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Pwrpas y ddogfen hon yw dangos cylch gorchwyl y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (y Panel).

**1.0 CEFNDIR**

1.1 Sefydlwyd y Panel ar 21 Tachwedd 2012 gan y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a

Hamdden. ‘Roedd yn codi o argymhellion a wnaed gan Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ynys Môn.

1.2 Mae’r Pennaeth Dysgu a’r Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiad yn rhoi arweiniad i'r Panel am ysgolion y gallai fod yn briodol eu gwahodd i ymddangos ger ei fron. Mae’r maen prawf a ddefnyddir i ddewis ysgolion yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion, perfformiad yr ysgol ac adroddiadau Estyn. Y nod yw cael cymysgedd da o ysgolion bach, canolig, mawr cynradd / uwchradd. Pwysleisir mai mater i’r Panel yn unig fydd dewis pa ysgol a fydd yn ymddangos o’i flaen.

1.3 Gall y Panel wahodd ysgolion i ailymddangos o’i flaen os oes materion y bydd angen eu hailystyried yn ddiweddarach.

**2.0 RÔL Y PANEL**

2.1 Gwella gwella perfformiad yr holl ysgolion ar Ynys Môn drwy herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn.

2.2 Annog rhannu ymarfer da rhwng ysgolion, gan fanteisio ar wersi a ddysgwyd ac o brofiad ysgolion unigol.

2.3 Gwella gwybodaeth yr aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn.

2.4 Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sgriwtini, y Pwyllgor Gwaith a'r Rheoleiddwyr bod perfformiad ysgolion yn cael ei fonitro gan yr aelodau.

2.5 Cynorthwyo'r Gwasanaeth Dysgu gyda rhaglenni a phrosiectau addysgol cyffredinol a chynyddu gwybodaeth am drefniadau gweithio ar y cyd rhwng y Cyngor a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru) er mwyn codi safonau.

**3.0 Y BROSES A’R TREFNIADAU AR GYFER ADRODD**

3.1 Derbyn adroddiadau gan y Pennaeth Dysgu a'r Uwch Reolwr Safonau Ysgolion ar berfformiad ysgolion unigol.

3.2 Derbyn adroddiadau gan yr Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (GwE) ar berfformiad ysgolion unigol.

3.3 Derbyn adroddiadau gan benaethiaid ar berfformiad ysgol ynghyd â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd sydd wedi arwain at well perfformiad.

3.4 Gwneud argymhellion neu godi unrhyw fater sy'n peri pryder i sylw'r Pennaeth Dysgu a'r Aelod Portffolio perthnasol lle bo angen.

3.5 Uwchgyfeirio materion ar gyfer sgriwtni lle bo angen.

3.6 Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio pob blwyddyn galendr.

**4.0 AELODAETH**

4.1 Y Panel i gynnwys 8 aelod (y Pwyllgor Sgriwtni Partneriaeth ac Adfywio i enwebu 4 aelod a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i enwebu 4 aelod).

4.2 Os bydd unrhyw aelod enwebedig yn ymddiswyddo o'r Panel neu ddim yn gallu parhau i fod yn aelod ohono (am ba reswm bynnag), bydd y Rhiant-Bwyllgor Sgriwtini yn enwebu aelod arall yn ei le.

**5.0 AMLDER A GWEINYDDU**

5.1 Bydd y Panel yn ceisio ystyried perfformiad 10 ysgol ym mhob blwyddyn galendr.

5.2 Bydd gan holl gyfarfodydd y Panel raglen ysgrifenedig a rhoddir cyfle i aelodau gynnig eitemau ar gyfer y rhaglen cyn y cyfarfod.

5.3 Cymerir cofnodion yn yr holl gyfarfodydd o'r Panel a fydd yn cynnwys crynodeb o'r pwyntiau trafod allweddol ac unrhyw gamau y cytunwyd i'w cymryd.

5.4 Nid oes raid cael cworwm i'r Panel fedru bwrw ymlaen ond dylid rhoi sylw difrifol i ohirio'r cyfarfod os bydd llai na thri aelod yn bresennol.

**6.0 ADOLYGU'R CYLCH GORCHWYL**

6.1 Adolygir y Cylch Gorchwyl bob blwyddyn gan y Panel. Bydd raid cyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

# ATODIAD 4

## PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

### SWYDDOGAETH A CHYLCH GORCHWYL

1. Sicrhau y parheir i gynnal safonau uchel yn y system gofal cyhoeddus i blant y gofelir amdanynt ac o fewn y gwasanaethau a gomisiynir yn y sector preifat.

2. Derbyn gwybodaeth reoli ynghylch proffil y plant y gofelir amdanynt ac sy'n derbyn gwasanaethau fel rhai sydd wedi gadael gofal, yn cynnwys plant a phobl ifanc a leolir yn Ynys Môn gan awdurdodau lleol eraill a phlant a phobl ifanc a leolir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ardaloedd awdurdodau eraill, [sef lleoliadau all-sirol]. Yn ogystal**,** bydd yn derbyn adroddiadau chwarterol gan y Swyddog Adolygu a'r Gwasanaeth Maethu.

3. Monitro a derbyn adroddiadau ar ddatblygu gwasanaethau perthnasol ar gyfer plant y gofelir amdanynt a'r sawl sy'n gadael gofal ar yr Ynys. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau ar sefydlogrwydd ac ymestyn y dewis o leoliadau sydd ar gael.

4. Gwella'r modd y caiff gwasanaethau i blant y gofelir amdanynt a'r sawl sy'n gadael gofal eu trefnu, monitro'r Cynllun Gwella Gwasanaeth [y sawl sy'n gadael gofal] a derbyn cofnodion Grwp Cynllunio Amlasiantaethol i'r sawl sy'n gadael gofal fel is-grwp dynodedig o'r Panel.

5. Monitro canlyniadau i blant y gofelir amdanynt o safbwynt eu iechyd a'u cyraeddiadau addysgol a sicrhau y cyfarfyddir â'r targedau cysylltiedig.

6. Sicrhau y rhoddir sylw i adroddiadau aelodau sy'n ymweld â chartrefi preswyl i blant ac y gweithredir arnynt ac y caiff gweithrediad effeithiol y rota i aelodau ei fonitro.

7. Sicrhau bod adroddiadau ar sylwadau a dyheadau plant y gofelir amdanynt a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu paratoi gan y Gwasanaeth Eiriolaeth a Hawliau Plant ac y gweithredir arnynt.

8. Rhoddi cefnogaeth/hyfforddiant i aelodau etholedig yng nghyd-destun y Gwasanaethau Plant a hynny mewn partneriaeth gyda'r Uned Hyfforddi Ganolog.

9. Mewn amgylchiadau eithriadol, ystyried achosion unigol sy'n peri pryder cyhoeddus ac sy'n achosi ac anhawster penodol i'r Awdurdod Lleol yn ei gyfanrwydd, a hynny yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

10. Dysgu a manteisio ar enghreifftiau o ymarfer dda mewn awdurdodau eraill.

# ATODIAD 5

## Bwrdd Trefniadau Diogelu Corrfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn

## Cydlynu Trefniadau Diogelu

## Maes Llafur

**Bwriad:** **Sicrhau bod gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau mewn lle ar gyfer gwarantu bod gwasanaetha'r Cyngor yn cyflawni eu dyletswyddau diogelu yn unol â gofynion cyfreithiol a Pholisïau'r Cyngor a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus ('mewn perygl' o dan Deddef Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

1) **Aelodaeth:**

**Dirprwy Brif Weithredwraig / Cyfarwyddwr Y Gwasanaethau Cymdeithasol) (Cadeirydd)**

Cyfrifoldeb - Sicrhau trosolwg ac atebolrwydd corfforaethol a hwyluso datrys anawsterau ac uchafu cyfleoedd hyrwyddo ymarfer da.

**Penaethiaid Gwasanaeth Plant ac Oedolion**
**Pennaeth Addysg**
**Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol**
**Pennaeth Adnoddau Dynol**
**Pennaeth Gwasanaeth Tai**
**Pennaeth Datblygu Economaidd, Gwarchod Y Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio**
**Rheolwr gwasanaeth Diogelu a gwarantu Ansawdd**
**Deilydd Portffolio**
**Arweinydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu**

Gwahoddi'r swyddogion eraill a/neu bartneriaid yn ddibynnol ar rhaglen waith ac agenda

2) **Atebolrwydd:**

Cyflwynnir adroddiad yn flynyddol i'r Prif Bwyllgor Sgriwtini trwy'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyflwynnir canfyddiadau o'r drefn adrodd i'r Grwp Diogelu Gweithredol (Plant ac Oedolion) Môn a Gwynedd a'r byrddau diogelu rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion.

**3) Amlder Cyfarfodydd:**

Pob deufis er mwyn:

i) Sicrhau bod rhaglen waith y Cyngor ( o fewn y Cynllun Tair Blynedd) a chwrdd â gofynion a blaenoriaeth diogelu ac
ii) adolygu cynnydd.

Cynhelir cyfarfodydd ychwanegol yn ddibynnol ar y rhaglen waith.

**4) Grwpiau Gorchwyl:**

Sefydlu grwpiau gorchwyl penodol gydag awdurdod y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**5) Cylch Gorchwyl:**

- Sicrhau bod canllawiau a pholisïau'r Cyngor yn gyfredol ac yn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau'r Cyngor.
- Hyrwyddo ymarfer da a diwylliant o ddysgu parhaus gan gyfrannu a dylanwadu ar ymarfer yn lleol a chenedlaethol.
- Adnabod a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor;
- hyrwyddo diogelwch plant ac oedolion mewn meysydd allweddol megis:
  a. Penodi a gwerthuso staff (DBS/geirda)
  b. Trefniadau disgyblu gyda chyfeiriad penodol at sefyllfaoedd ble bo ystyriaethau diogelu plant ac oedolion a honiadau yn erbyn staff proffesiynol.

**6. Gweinyddiaeth**

**Darperir cefnogaeth weinyddol gan Y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer trefnu a choofnodi cyfarfodydd. Trefnir y rhaglen a'r papurau ar gyfer y cyfarfodydd gan y Rheolwr gwasanaeth Diogelu mewn ymgynghroiad gyda'r Cadeirydd a Phennaeth Gwasanaethau Plant.**

**Cylchredir y rhaglen a'r papurau (yn y ddwy iaith ble bo'n bosibl) at aelodau'r Bwrdd o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd y cofnodion yn cael eu cylchredeg o fewn 10 diwrnod gwaith o gynnal y cyfarfod.**

**Cymeradwywyd: Ionawr 2015**

**Adolygiad:** **Ebrill 2016**

# ATODIAD 6

## Rôl y Byrddau Trawsnewid Corfforaethol, y Byrddau Rhaglen Gwasanaeth a Sgriwtini

1.1. Nôd y ***Byrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol*** -

- Darparu arweiniad gweledol er mwyn gyrru newid a gwelliant ar yr Ynys er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol
- Gyrru rhaglenni a phrosiectau newid corfforaethol yn eu blaenau gan sicrhau eu bod yn cyflawni'r pethau allweddol yn erbyn llinellau amser y Rhaglen a'r Prosiect
- Gwireddu buddion y Cynllun Corfforaethol a hynny'n seiliedig ar y 6 thema allweddol
- Cydlynu ac arwain y rhaglenni a'r prosiectau newid yn gyffredinol
- Sicrhau, gyda chefnogaeth gan y Rheolwr Rhaglen a'r tîm cymorth, bod rhaglenni a phrosiectau newid unigol yn y Cyngor yn cael eu rheoli, eu cyflawni a'u monitro'n unol â'r disgwyliadau gan roddi ystyriaeth i wersi a ddysgir a rhannu arferion da
- Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sgriwtini, Pwyllgor Gwaith y Cyngor, rheoleiddwyr (h.y. arolygwyr/archwilwyr allanol ac archwiliadau mewnol) a holl weithwyr y Cyngor, ynghylch datblygiad y Cynllun Corfforaethol a rhaglenni a phrosiectau newid unigol a sicrhau cyfathrebu tryloyw, hygyrch ac amserol ***fel y gellir darparu cyfle drwy'r Gadair i nodi meysydd lle gall rôl Sgriwtini ychwanegu gwerth, naill ai yn y Byrddau eu hunain neu drwy'r broses Sgriwtini.***

1.2 Nôd y ***Byrddau Newid Rhaglen Gwasanaeth*** yw –

- Sgopio a blaenoriaethu, gyda chefnogaeth y Pennaeth Gwasanaeth, yr amrediad o raglenni a phrosiectau newid sy'n codi'n flynyddol o'r cylch ymarferion Cynllunio Busnes Gwasanaeth a hanner ffordd drwy'r cylch hwnnw
- Derbyn adroddiadau gan y Rhaglen / Rheolwr Prosiect ar –
    - gynnydd,
    - risgiau sylweddol a'r
    - buddsoddiad angenrheidiol mewn rhaglenni a phrosiectau newid
- Anfon adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (a'r Pwyllgor Gwaith wedi hynny) ar gynnydd, risgiau a'r buddsoddiad y mae angen ei wneud yn y rhaglenni a phrosiectau newid
- Darparu arweiniad ac ymrwymiad gweledol i'r broses o weithredu'r strategaeth trawsnewid gwasanaethau ymysg staff a sefydliadau partner
- ***Darparu cyfleoedd drwy'r Gadair i nodi meysydd lle gall rôl Sgriwtini ychwanegu gwerth yn y Bwrdd***

1.3. Rôl a bwriad cael ***Cynrychiolaeth Sgriwtini*** ar y byrddau rhaglen Corfforaethol a Gwasanaeth felly yw:

- Adnabod drwy y Cadeirydd y bwrdd perthnasol, unrhyw elfen o'r gwaith a fyddai'n briodol ar gyfer ei graffu ymhellach er mwyn cynorthwyo i sicrhau'r cynnydd disgwyliedig.

  - Gallai / dylai'r swyddogaeth Sgriwtini wedyn gynorthwyo a chefnogi meysydd gwaith y mae eu hangen er mwyn sicrhau cynnydd ar fyrder neu er mwyn dal i fyny gyda llinellau amser gwreiddiol y prosiect / rhaglen.

# ATODIAD 7

Diweddariad Cryno Rhaglenni - Chwarterol

Mae'r ddogfen yma wedi'i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i'r -

- Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes, a'r
- Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau

Rhagwelir y bydd prosiectau a rhaglenni newydd sy'n deillio o'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad gyda'r bwriad bydd aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith gyda dealltwriaeth lefel uchel llawn a chynhwysfawr o gyflawniadau'r Cyngor yn erbyn ei amcanion a'i amserlenni.

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi ei gwblhau | Prosiect wedi ei gwblhau |
| Ar y trywydd iawn | Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn |
| Ar ei hôl hi | Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thŷ ôl i'r amserlen ddisgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi dechrau |

| Rhaglen/Prosiect | Prosiectau Cysylltiedig | CAMG a Diweddariad Cryno |
|---|---|---|
| Moderneiddio Ysgolion | **Ardal y Llannau** | Strwythur allanol yr adeilad wedi ei gwblhau |
| | **Ardal Caergybi** | Y prosiect yn parhau i gael ei ddatblygu ar amser. |
| | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | LlC wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn mewn egwyddor |
| | **Ardal Llangefni** | Adroddiad ar yr ymgynghoriad yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 17 |
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Mae'r gwaith o baratoi'r safle ar gyfer adeiladu'n parhau ar hen safle Ysgol y Bont. Mae cyfarfodydd rheolaidd o Weithgor Hafan Cefni'n cael eu cynnal. Disgwylir i'r gwaith adeiladu fod wedi ei gwblhau erbyn yr haf 2018. |
| | **Gofal Ychwanegol Amlwch** | Mae'r gwaith yn ardal Amlwch bellach yn destun 'Seibiant ac Adolygiad' tan 2018 |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Mae'r Bwrdd wrthi'n rhoi sylw i ystyriaethau cyfannol ar gyfer ardal newydd. |
| | **Gofal Ychwanegol Garreglwyd** | |
| | **Byw â Chymorth** | Mae angen cadarnhad pellach o strategaeth risg y prosiect ynghyd ag ail-asesiad o'r sefyllfa ariannol gysylltiedig. |
| | **Tendro'r Gwasanaethau Gofal Cartref** | |
| | **Allanoli'r Gwasanaethau Warden** | |
| **Trawsnewid Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Ieuenctid, Amgueddfeydd a Diwylliant** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Mae amserlen ddiwygiedig wedi cael ei chytuno gan Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid ar 20/12/16 |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Mae amserlen ddiwygiedig wedi cael ei chytuno gan Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid ar 20/12/16 – model newydd yn ei le erbyn Ionawr 2018 |
| | **Adolygiad o'r Gwasanaethau Ieuenctid** | Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar y bwriad i ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cael ei ymestyn i 13.02.2017 er mwyn cyd-ddigwydd â'r ymgynghoriad ar y gyllideb |
| **Hamdden** | | |
| **Ynys Ynni** | | Cafodd tîm y rhaglen wahoddiad i'r Bwrdd ym mis |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ionawr 2017 i roi diweddariad ar ddyfodol y rhaglen |
| **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)** | | Mynd rhagddo'n dda ar y cyfan, rhaid risgiau wedi cael eu nodi fel a nodir uchod gyda phrosiect Neuadd y Farchnad |
| **Neuadd y Farchnad** | | Rhagwelir oedi o 4 wythnos (allan o raglen 92.5 o wythnosau) oherwydd oedi annisgwyl oherwydd problemau gtyda chyflwr y ddaear. Mae gwaith Rhan 2 yn mynd yn ei flaen ac mae'r dogfennau tendr ar gyfer Rhan 2 bron wedi eu cwblhau a rhagwelir y byddant yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf.. |
| **Cynllun Datblygu Lleol** | | |
| **Cynllun Rheoli Cyrchfan** | | Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir gan y Cyngor o ran gwireddu'r cynllun |
| **Arfarnu Swyddi a Statws Sengl** | | |
| **Cyswllt Adnoddau – Northgate (AD)** | | |
| **Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer** | | |
| **Caffael** | | |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | |
| **Parhad Busnes** | | |
| **Strategaeth TGCh** | | |
| **Moderneiddio a Chydlynu'r gwasanaeth cyngor ar fudd-daliadau** | | |
| **WCCIS** | | |
| **Rheoli Polisïau** | | |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO 2017/2018

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o Fai 2017 at Fai 2018. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **31 Mai 2017** | Ethol Cadeirydd | Ethol Cadeirydd | Ystafell Pwyllgor 1 / 3.30yh |
| | Ethol Is Gadeirydd | Ethol Is Gadeirydd | |
| | | | |
| **27 Mehefin 2017** | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addeid | Gwybodaeth/ monitro perfformiad | |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodaeth | |
| | | | |
| **5 Medi 2017** | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (datblygu Cynllun Llesiant Môn a Gwynedd) | monitro perfformiad/datblygu polisi | |
| | Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ( Diweddariad) (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad | |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (Diweddariad) | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **14Tachwedd 2017** | Cyd Weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **6 Chwefror 2018** | Adroddiad Blynyddol – Perfformiad Ysgolion Môn2016/2017 | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 | Monitro perfformiad | |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion ( Diweddariad) | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **10 Ebrill 2018** | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |

Eitemau arfaethedig i'w hychwanegu: Arbrawf Gorfodaeth Amgylcheddol (baw ci)- Diweddariad, Cyngor Iechyd Cymuned a Monitro Partneriaethau yn 2017/2018.



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English